Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 23 EBRILL 2019 am 2:00 y. p. | | TUESDAY, 23 APRIL, 2019 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, 2019.

3 **MATERION YN CODI - DILYNIANT I'R ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2017/18** (Tudalennau 19 - 22)

Cyflwyno adroddiad yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

4 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 23 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

5 **ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO 2019 - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 43 - 62)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 2018/19** (Tudalennau 63 - 76)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor.

7 **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2018/19** (Tudalennau 77 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 97 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Dylan Rees, Gwilym O. Jones, Alun Roberts<br><br>Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Rheolwr Gweithrediadau Iechyd yr Amgylchedd (KR) (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 12)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Margaret M. Roberts, Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd y Cyngor), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Prif Archwilydd (EW), Uwch Archwilydd (NW), Uwch Archwilydd (JR) |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION Y CYFARFOD AR 4 RHAGFYR, 2018**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi ohonynt –

- Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Grŵp Prif Archwilwyr Gogledd Cymru wedi cyfarfod ym mis Ionawr, 2019 fel oedd wedi'i drefnu; mae'r Grŵp nawr yn gweithio ar hunanasesiad y gellir ei ddefnyddio ar draws Gogledd Cymru i asesu cydymffurfiaeth Pwyllgorau Archwilio gyda chanllawiau newydd CIPFA ynghylch rôl Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu sydd wedi ymestyn sgôp pwyllgorau archwilio. Felly bydd aelodau'r Pwyllgor yn derbyn holiadur yn fuan i ofyn eu barn ynglŷn â lle tybiant mae'r Pwyllgor arni ar hyn o bryd.

- Darparodd y Pennaeth Archwilio a Risg wybodaeth am yr ad-daliadau a wnaed i gwmnïau am docynnau teithio rhatach ar gyfer pob un o'r tair blynedd o 2014/15 i 2017/18 fel roedd y Pwyllgor wedi gofyn amdano yn ei gyfarfod blaenorol pan oedd yn ystyried yr adolygiad Archwilio Mewnol ar Dwyll Tocynnau Teithio Rhatach (yn dilyn achos adnabyddus o dwyll yn erbyn Cyngor Gwynedd). Dywedodd y Swyddog ei bod hefyd wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i geisio eu barn ynghylch p'un a oedd taliadau



DRAFT

teithio rhatach wedi amrywio ledled Cymru yn dilyn y twyll. Er nad oedd Archwilydd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai dyna'r achos, mae'r data'n dangos y bu gostyngiad dilynol mewn taliadau am docynnau teithio rhatach. Fel ymarfer dilynol ar ôl y twyll, mae Heddlu Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal gweithdy yng Ngogledd Cymru a bydd Prif Swyddog Archwilio pob Cyngor yn cael ei wahodd iddo – y bwriad fydd edrych ar feysydd o dwyll y gellir rhoi sylw iddynt yn gyffredinol ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac yn fwy penodol, teithio rhatach.

- Darparodd y Pennaeth Archwilio a Risg wybodaeth am safle'r Cynghorau yng Nghymru mewn perthynas â chasglu incwm o brydau ysgol/dyledion prydau ysgol yn 2017/18. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth yn ei gyfarfod blaenorol. Cafwyd y wybodaeth o erthygl newyddion BBC ar ddyledion prydau ysgol mewn Cynghorau yng Nghymru. Dywedodd y Swyddog, er bod yr erthygl yn cyfeirio at y mwyafrif o gynghorau yng Nghymru, roedd Ynys Môn yn un o'r cynghorau a gafodd eu gadael allan o'r erthygl gan nad yw'n gallu rhoi ffigwr manwl-gywir ar gyfer y cyfanswm dyledion ar hyn o bryd oherwydd y ffaith fod dwy system yn weithredol, gyda rhai ysgolion yn gweithredu ar sail di-arian-parod tra bod eraill yn defnyddio arian parod. Rhagwelir y bydd holl ysgolion y Cyngor wedi trosglwyddo i'r system newydd erbyn mis Medi felly bydd modd i'r Cyngor ddarparu ffigwr dibynadwy ar gyfer dyledion cinio ysgol yr adeg honno.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod rhai ysgolion ar hyn o bryd yn cofnodi dyledion cinio ysgol ar gofrestri unigol yn y dosbarthiadau; mae rhai yn cyfrifo'r cyfanswm ar ffurflen grynodeb; mae rhai ysgolion yn gweithredu system sy'n rhannol ddi-arian, rhannol ariannol tra bod eraill yn gwbl ddi-arian, sy'n golygu bod gwahanol fersiynau o'r system a phob un yn dal gwahanol ddarnau o wybodaeth. Yr amcan yw cysoni'r darnau hyn o wybodaeth mewn un ffigwr dyledion cyffredinol, gan gofio hefyd fod y ffigwr yn newid yn ddyddiol. Yr amser delfrydol i wneud y cyfrifiad hwn fyddai ar ddiwedd tymor y Pasg pan fydd y ffigwr yn aros yr un fath am bythefnos – gellir cynhyrchu ffigwr bryd hynny. Bydd ysgolion yn trosglwyddo i'r system ddi-arian newydd dros dymor yr haf a disgwylir y bydd y system newydd yn weithredol yn yr holl ysgolion ym mis Medi.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oes gweithdrefn wedi'i chytuno ar gyfer adfer dyledion cinio ysgol, eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mai mater i bob ysgol unigol yw cyfeirio dyledion sydd dros lefel benodol – £50 ar hyn o bryd – i'r tîm Adfer Dyledion Canolog a fydd wedyn yn anfon bil a nodyn atgoffa, ac os bydd y ddyled dal heb ei thalu, bydd wedyn y anfon y ddyled ymlaen i Asiantaeth Casglu Dyledion y Cyngor. Mae faint o waith a wneir ar adfer dyledion yn dibynnu ar faint y ddyled. Y nod yw taro cydbwysedd rhwng lefel y ddyled a'r gost o'i hadfer, tra'n ei gwneud yn glir y bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodaeth pan fo raid er mwyn adfer dyledion. O dan y system newydd bydd rhaid i rieni dalu am brydau ysgol ymlaen llaw, a bydd ganddynt gyfrif credyd ar y system sy'n ei gwneud yn haws i reoli sefyllfa gredyd y rhieni ac i gysylltu â hwy petai angen.

Wrth edrych ar yr amrediad o ddyledion cinio ysgol a nodwyd yn erthygl y BBC, awgrymodd y Pwyllgor y gellir dysgu gwersi wrth gysylltu â'r Cyngor sydd â'r lefel isaf o ddyled, sef Rhondda Cynon Taf ar £770.56, er mwyn sefydlu pa arferion y mae wedi eu rhoi ar waith i'w helpu i reoli arian cinio ysgol a chadw'r ddyled yn isel.

Pwysleisiodd aelod o'r Pwyllgor ymhellach fod y Cyngor hwn yn y gorffennol wedi ceisio pledio'r achos dros ymestyn prydau ysgol am ddim i'r holl blant ysgol yng Nghymru, gan felly gael gwared ar y stigma sydd dal yn gysylltiedig â hawlio a derbyn prydau ysgol am ddim.

DRAFT

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mewn perthynas â’r arferion gorau mewn cynghorau eraill, yn dilyn cyflwyniad Credyd Cynhwysol fod y system prydau ysgol am ddim wedi newid. Yn flaenorol, byddai plentyn yn derbyn prydau am ddim os oedd ei rieni yn derbyn un o chwech budd-dal allan o waith, ond mae Credyd Cynhwysol wedi dod â’r budd-daliadau mewn gwaith ac allan o waith ynghyd. Bydd plentyn sydd â’i rieni’n derbyn Credyd Cynhwysol yn derbyn prydau ysgol am ddim waeth pa fudd-dal oedd yn gymwys o’r blaen (h.y. mewn gwaith neu allan o waith). Felly, mewn ardaloedd lle mae Credyd Cynhwysol wedi bod yn weithredol yn hirach, bydd yna fwy o blant sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nag yn yr ardaloedd lle mae Credyd Cynhwysol ond newydd ddod i mewn h.y. Ynys Môn, lle cafodd Credyd Cynhwysol ond ei gyflwyno ym mis Rhagfyr, 2018, a lle mae nifer y bobl sy’n ei dderbyn, ac o ganlyniad nifer y plant sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, yn is nag mewn ardaloedd megis Torfaen, er enghraifft.

Ynglŷn â’r pwynt am y stigma o dderbyn prydau ysgol am ddim, dywedodd y Swyddog y bydd y system newydd ddi-arian yn cael gwared ar y stigma gan nad yw’n tynnu sylw at y rheini sy’n derbyn prydau am ddim o gymharu â’u cyfoedion yn yr modd ag y mae casglu arian cinio yn eich llaw yn ei wneud.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd.

**CAMAU GWEITHREDU A GYNIGWYD:**

- **Y Pennaeth Archwilio a Risg i wneud ymholiadau gyda Chynghorau yng Nghymru lle mae’r ddyled cinio ysgol yn isel ynglŷn â pha arferion sydd ganddynt ar waith i reoli’r ddyled cinio ysgol.**
- **Gofyn i’r Pwyllgor Gwaith ystyried lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno prydau ysgol am ddim i’r holl blant ysgol yng Nghymru.**

**3. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2017/18**

Cyflwynwyd i’r Pwyllgor ei ystyried – yr Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2017/18.

Rhoddodd y Rheolwr Gweithrediadau Iechyd yr Amgylchedd grynodeb o’r prif ystyriaethau i’w tynnu o’r adroddiad fel a ganlyn –

- Mae gwaith sylweddol wedi’i wneud i adfywio Iechyd a Diogelwch yn y Cyngor, ac mae Uwch Swyddogion, Adnoddau Dynol a Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi bod ynghlwm â’r gwaith. Y prif ffrydiau gwaith ar lefel uwch swyddogion fu datblygu Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol newydd sy’n egluro’r rolau a’r cyfrifoldebau ar gyfer yr holl fudd-ddeiliaid yn y Cyngor. Yn ogystal, mae rôl ddiwygiedig y Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch i fod yn fwy rhagweithiol o ran gwella iechyd a diogelwch wedi bod yn newid mawr yn y trefniadau.
- Ar gyfer 2017/18, cofnodwyd cyfanswm o 1322 o ddigwyddiadau sy’n ostyngiad o 111 o nifer y digwyddiadau yn y flwyddyn gynt. Cofnodwyd cyfanswm o 249 o ddigwyddiad yn gysylltiedig â gweithwyr, sydd 46 yn is nag yn y flwyddyn gynt. Darperir dadansoddiad o’r digwyddiadau yn yr adroddiad a phan welwyd tueddiadau neu batrymau yn dod i’r amlwg, mae gwaith wedi’i wneud i leihau’r risg. Dylai bod hyn wedi helpu i ostwng nifer y digwyddiadau ac mae’n broses sy’n parhau.
- Adroddwyd cyfanswm o 20 digwyddiad i’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) o dan y drefn RIDDOR (Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) gyda’r AGID yn derbyn adroddiad ar bob digwyddiad. Ni wnaeth yr AGID gymryd unrhyw gamau dilynol sy’n dangos ei fod yn fodlon gyda’r gwaith a wnaed i atal yr un digwyddiad rhag digwydd eto.

DRAFT

- Darparwyd cyfanswm o 92 o gyrsiau hyfforddiant byr ar ystod o bynciau iechyd a diogelwch yn ystod y flwyddyn, gyda chyfanswm o 892 aelod o staff yn eu mynychu.
- Fe wnaed gwaith partneriaeth rhwng y chwe tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yng Ngogledd Cymru, gyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo gyda ffrydiau gwaith Iechyd a Diogelwch. Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu cefnogaeth a Hyfforddiant ar Iechyd Galwedigaethol.
- Darparwyd gwybodaeth i gynorthwyo'r AGID. Er na fu unrhyw ymyraethau gan yr AGID yn 2017/18, fe wnaeth y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gynnal 336 o ymyraethau rhagweithiol i gynorthwyo gyda materion Iechyd a Diogelwch. Cyflwynwyd bwletin misol Iechyd a Diogelwch yn ogystal er mwyn codi ymwybyddiaeth am faterion iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor.
- Mae Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'i ddatblygu hefyd er mwyn gwella safonau Iechyd a Diogelwch ymhellach yn y Cyngor.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor fod y neges o'r adroddiad yn bositif ar y cyfan ac yn adlewyrchu diwylliant Iechyd a Diogelwch sy'n gwella yn y Cyngor; roedd y Pwyllgor yn croesawu'r amlygrwydd a'r gweledEdd a roddir i Iechyd a Diogelwch o fewn y Cyngor ynghyd â'r camau a gymerwyd i roi sylfaen gadarn i Iechyd a Diogelwch.
- Nododd y Pwyllgor, er bod cyfanswm nifer y digwyddiadau wedi gostwng o'r flwyddyn gynt, mae nifer yr ymosodiadau corfforol (digwyddiadau'n gysylltiedig â chleientiaid a disgyblion) wedi dyblu bron iawn yn yr un cyfnod o 56 yn 2016/17 i 103 yn 2017/18. Nododd y Pwyllgor hefyd fod digwyddiadau'n cael eu cofnodi o dan gategori ar wahân ar gyfer ymosodiadau corfforol gan berson, ond nad oedd y data'n gwahaniaethu digon rhwng y ddau gategori. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad am y cynnydd mewn ymosodiadau corfforol a sut gellid mynd i'r afael â hyn.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod y data yn cynnwys digwyddiadau o ymosodiadau corfforol mewn ysgolion, rhai prif lif ac ysgolion arbennig, yn cynnwys disgyblion gydag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol mewn ysgolion prif lif. Mae'n bosib bod digwyddiadau mewn ysgolion wedi cyfrannu at ganran uwch o ddigwyddiadau yn gyffredinol. Gellid hefyd briodoli'r cynnydd yn 2017/18 yn rhannol i'r ffaith fod gan ysgolion Bolisi Iechyd a Diogelwch Ysgol mewn lle bellach sy'n seiliedig ar y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, a bydd hynny wedi dylanwadu ar gofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau. Cafodd y Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig ei weithredu yn 2017/18 ac mae'n manylu'n fwy clir nag o'r blaen beth yw'r disgwyliadau ar gyfer ysgolion, yn enwedig y disgwyliadau o ran rôl Prif Athrawon, uwch athrawon ac athrawon mewn perthynas ag adrodd digwyddiadau wrth Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr ysgol. Er hyn, mae angen ymchwilio ymhellach i'r rhesymau am y cynnydd gyda'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a gweld sut mae'r canlyniadau o un flwyddyn i'r nesaf wedi eu cymedroli, a sefydlu p'un a yw'r cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol o ganlyniad i gynnydd ystadegol oherwydd adrodd cliriach neu p'un a yw o ganlyniad i gynnydd mewn pryderon.

  Dywedodd y Rheolwr Gweithrediadau Iechyd yr Amgylchedd y byddai cymharu'r data ar gyfer 2017/18 gyda'r data yn adroddiad ariannol y flwyddyn nesaf 2018/19 o bosib yn rhoi darlun cliriach o sut mae'r effeithlonrwydd o ran adrodd wedi gwella yng nghyd-destun y nifer o ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd.

- Nododd y Pwyllgor fod y cynnydd mewn ymosodiadau corfforol yn adlewyrchu tueddiadau diweddar yn y Gwasanaeth Iechyd lle mae ymosodiadau ar staff rheng-flaen wedi cael llawer o sylw'n gyhoeddus; dylai'r Cyngor geisio cael yr un lefel o gyhoeddusrwydd ar gyfer ymddygiad heriol yn erbyn staff y Cyngor.



DRAFT

- Nododd y Pwyllgor y gallai damweiniau a/neu anafiadau a geir tra mae person ar ddyletswydd y Cyngor, neu yn fwy arbennig gan aelodau o'r cyhoedd tra maent yn eiddo'r Cyngor, arwain at hawliadau yn erbyn y Cyngor a allai fod yn gostus. Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch p'un a yw'r Cyngor yn tracio nifer yr hawliadau iechyd a diogelwch a wneir yn erbyn y Cyngor, a'r costau cysylltiedig.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Rheolwr Yswiriant a Risg y Cyngor yn cadw cofnod o nifer yr hawliadau a wneir yn erbyn y Cyngor yn ogystal â'u canlyniad yn nhermau yr hawliau a gafodd eu derbyn a'r rheini a gafodd eu herio.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, fel rhan o gyfrifoldebau llywodraethu newydd, ehangach y Pwyllgor Archwilio, y bydd yn derbyn Adroddiad Yswiriant blynyddol yn ei gyfarfod nesaf ym mis Ebrill a bydd yr adroddiad hwnnw yn ymgorffori materion sy'n ymwneud â hawliadau yn erbyn y Cyngor.

- Nododd a chroesawodd y Pwyllgor y sesiynau hyfforddiant a ddarparwyd i staff y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd fel mesur ataliol pwysig wrth gynnal iechyd a diogelwch yn y gwaith.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2017/18 a nodi ei gynnwys, gan nodi hefyd bod gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ystyried trefniadau a pherfformiad Iechyd a Diogelwch.**

**CAM GWEITHREDU A GYNIGWYD: Gofyn i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch Corfforaethol roi eglurhad ar y canlynol –**

- **P'un a oes unrhyw resymau penodol am y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol a p'un a yw'r cynnydd yn adlewyrchu tuedd sy'n dod i'r amlwg.**
- **Y gwahaniaeth rhwng y ddau gategori "Ymosodiad Corfforol gan Berson" yn y Tabl Mathau o Ddigwyddiad ar dudalen 6 yr adroddiad.**

## 4. LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2017/18

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2017/18. Roedd y Llythyr yn cadarnhau fod yr Archwilydd Cyffredinol, ar 28 Medi 2018, wedi cyflwyno barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor sy'n cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor. Cafodd y materion allweddol a oedd yn codi o'r archwiliad eu hadrodd wrth y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi 2018.

Nododd y Pwyllgor y Llythyr Archwilio a nododd hefyd ei fod yn gwneud sylwadau ar yr heriau ariannol a wyneba'r Cyngor wrth geisio gosod cyllideb gytbwys yn erbyn cefndir o falensau sy'n gostwng yn y gronfa gyffredinol, a'i fod yn cyfeirio'n benodol at y pwysau a'r galw mewn gofal cymdeithasol Plant ac Oedolion fel rhesymau allweddol am y diffyg o £3.3m y mae'r Cyngor yn ei ragweld yn narpariaeth gwasanaethau yn 2018/19. Yn wyneb hyn fe geisiodd y Pwyllgor eglurhad ar y canlynol –

- P'un a yw'r Gwasanaeth Iechyd yn cyfrannu tuag at y gost o leoliadau gofal plant, neu a yw'r Cyngor yn gofyn iddo wneud hynny.
- P'un a yw'r Awdurdod yn ceisio cael ateb hirdymor i'r prinder o leoliadau plant yn lleol trwy gynyddu'r capasiti ar yr Ynys, a thrwy hynny leihau'r defnydd o leoliadau tu allan i'r ardal sy'n cyfri am gyfran fawr o'r gwariant ar ofal cymdeithasol Plant.



DRAFT

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gan yr Awdurdod gyfrifoldebau penodol yng nghyswllt diogelu a hyrwyddo llesiant y plant mae'n gofalu amdanynt; dros y tair blynedd diwethaf mae'r Awdurdod wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y gwasanaethau y mae'n eu darparu i'w blant mewn gofal o'r ansawdd uchaf, ac mae gwelliannau sylweddol wedi digwydd yn yr amser hwnnw. Fodd bynnag, mae yna achosion lle mae anghenion plentyn mewn gofal yn gysylltiedig ag iechyd, ac yn yr achosion hynny nid yw'r Awdurdod yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Iechyd.

Dywedodd y Swyddog fod y Llythyr Archwilio hefyd yn tynnu sylw at y gostyngiad ym malansau Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel risg a'i fod yn datgan nad yw'n gynaliadwy i ddibynnu ar arian wrth gefn i dalu am y gost barhaus o Wasanaethau Plant/Gofal sy'n cael eu harwain gan y galw. Ychwanegodd y Swyddog fod y risg yn sgil y galw uchel ar gyllidebau Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion yn broblem i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd, ac nad yw'n fater unigryw i Ynys Môn.

O ran mynd i'r afael â'r prinder lleoliadau yn lleol, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr Awdurdod wedi cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Model gofal Cartrefi Grŵp Bach – mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn defnyddio tai addas o'i stoc tai ei hun i ddarparu llety i hyd at 2 o blant sy'n derbyn gofal. Roedd y Pwyllgor Gwaith hefyd wedi cymeradwyo pecyn cefnogaeth estynedig i Ofalwyr Maeth gyda'r nod o hwyluso'r dasg o recriwtio Gofalwyr Maeth. Tra bydd y mesurau hyn yn dod ag arbedion yn y tymor hir trwy leihau'r defnydd o leoliadau pell/Gofalwyr Maeth preifat, bydd yna wastad blant yn ngofal yr Awdurdod a chanddynt anghenion mor ddwys fel bod angen lleoliadau arbenigol arnynt, nad ydynt ar gael yn y sir. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cronfa Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd gwerth £100m i ddatblygu modelau newydd o ofal iechyd a chymdeithasol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae chwe awdurdod Gogledd Cymru ynghyd â BIPBC yn gweithio ar Gynllun Plant ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2017/18 a nodi ei gynnwys.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**5. DIWEDDARIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi diweddariad ar y cynnydd diweddaraf gan Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, darpar sicrwydd a'r adolygiadau a gwblhawyd.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio a Risg y prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Cwblhawyd un adroddiad adolygiad archwilio yn derfynol yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â **Seiber-ddiogelwch TG** – arweiniodd at farn Sicrwydd Rhesymol (rhoddwyd copi o'r adroddiad llawn i'r Pwyllgor). Er i'r adolygiad gasglu ar y cyfan fod gan y Cyngor nifer o reolaethau effeithiol mewn lle i reoli'r risg i seiber-ddiogelwch ac i atal ymosodiadau maleisus, allanol a lleihau eu heffaith ar Wasanaethau, systemau a gwybodaeth y Cyngor, roedd hefyd yn nodi y gallai'r llwyddiant yn y maes hwn ddioddef yn sgil diffyg monitro rhagweithiol o raddau a natur bygythiadau seiber cyfredol a newydd sy'n wynebu'r Cyngor. Codwyd cyfanswm o bump mater/risg ac mae Cynllun Gweithredu i roi sylw i'r materion hynny wedi'i gytuno gyda'r Rheolwyr.
- Cafodd un adolygiad dilyn-i-fyny ei orffen yn ystod y cyfnod, sef trydydd adolygiad dilyn-i-fyny ar **Fynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau**. Cafodd adolygiad ar reolaethau mynediad rhesymegol a gwahaniad dyletswyddau ei wneud gyntaf fel

rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yn 2014/15; roedd hyn wedi arwain at sgôr Coch gyda 14 o argymhellion ac un awgrym. Ar ôl yr adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf ym mis Mehefin, 2015 fe'i sgoriwyd yn Goch eto a chanfuwyd fod 12 o'r argymhellion dal heb eu gweithredu. Fe wnaed ail adolygiad dilyn-i-fyny ym mis Rhagfyr 2017 a gadarnhaodd fod 5 argymhelliad yn dal i fod angen sylw. O ganlyniad, arweiniodd yr adolygiad hwn at farn Sicrwydd Cyfyngedig yn unol â'r dull archwilio newydd. Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaed trydydd adolygiad dilyn-i-fyny. Cadarnhaodd yr adolygiad hwn o'r pum mater/risg a oedd yn weddill, fod dau wedi derbyn sylw a bod tri – yn ymwneud â gwahaniad dyletswyddau yn yr Adain Gyflogau – yn y broses o dderbyn sylw.

Mae'r adain gyflogau yn cael ei hailstrwythuro ar hyn o bryd. Unwaith mae'r prosiect Northgate wedi'i orffen, bydd y strwythur newydd yn cael ei weithredu. Mae'r cylch cyntaf o ymgynghoriadau ar y strwythur newydd wedi digwydd a byddant yn mynd yn eu blaen yn ystod mis Ionawr, 2019. Unwaith mae wedi ei weithredu'n llawn, mae'r Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifeg yn ffyddiog y bydd hyn yn mynd i'r afael â'r materion/risgiau gwreiddiol sydd ar ôl. Er bod cynnydd wedi'i wneud, gan ystyried canlyniadau'r adolygiad dilyn-i-fyny, mae lefel sicrwydd yr adroddiad yn aros fel Sicrwydd Cyfyngedig ac mae adolygiad dilyn-i-fyny arall wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf, 2019.

- Bydd dau adroddiad sydd â lefel Sicrwydd Cyfyngedig yn cael adolygiad dilyn-i-fyny cyn diwedd y flwyddyn ariannol – Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, a Chydymffurfiaeth â Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu. Roedd y ddau adolygiad yn mynd rhagddynt ar adeg drafftio'r adroddiad a gellir cadarnhau, ers ysgrifennu'r diweddariad, fod yr adolygiad dilyn-i-fyny ar Orchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi cael ei gwblhau'n derfynol, ac wedi cael ei godi i Sicrwydd Rhesymol.
- Ers penodi'r ddau Uwch Archwilydd newydd, mae gwaith ar y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19 (Atodiad A i'r adroddiad) wedi mynd yn ei flaen yn dda. Fodd bynnag, o gofio pa mor hir oedd y swyddi hyn yn wag ynghyd ag ymchwiliadau hirfaith, gwaith dilynol sylweddol, ac absenoldeb mamolaeth y trydydd Uwch Archwilydd, bydd hi'n anodd cyflawni targed y Gwasanaeth i roi sylw i 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Hyd yma, mae 35% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr wedi derbyn sylw, ac mae gwaith yn parhau mewn pum maes arall a ddynodwyd fel risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r meysydd hynny wedi eu nodi yn yr adroddiad. Mae gwaith hefyd yn mynd ymlaen mewn tri maes penodol ar gais Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rhan o ddau ymchwiliad sy'n mynd ymlaen ac sy'n tynnu at eu terfyn. Bydd meysydd nad ydynt yn cael sylw eleni yn cael eu dwyn ymlaen a'u blaenoriaethu yn 2019.
- Roedd Yswiriwyr y Cyngor, Zurich Municipal (ZM), wedi cynnal Gwiriad Iechyd Rheoli Risg annibynnol a oedd yn canolbwyntio ar y chwe maes o weithgaredd rheoli risg a nodir ym mharagraff 26 yr adroddiad. Roedd ZM wedi dod i'r casgliad fod rheolaeth risg ar lefel 'Rheoledig' o fewn y pum lefel aeddfedrwydd yn y Model Perfformiad a ddefnyddiwyd. Roedd hyn yn unol â'r disgwyl ac mae Cynllun Gweithredu'n cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r holl sylwadau/argymhellion a wnaed gan ZM (mae crynodeb ohonynt yn yr adroddiad).

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad ac fe wnaeth y pwyntiau a ganlyn –

- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â diagram Cyfradd Ymosodiadau y System Atal Ymwthiadau o fewn yr Adroddiad Seiber-ddiogelwch TG, y bu cynnydd sydyn yng nghyfradd yr ymosodiadau dros dri diwrnod ar ddiwedd mis Tachwedd, 2018. Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch beth oedd yr ymosodiad hwn yn ei ddangos, ac a oedd ffynhonnell yr ymosodiad yn hysbys.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y gall actorion gwledydd tramor fod yn ffynhonnell ymosodiadau seiber ar gyrff cyhoeddus ac y byddant yn ceisio cuddio eu twyll trwy gynnal eu gweithgaredd gan esgus bod yn wlad arall. Fe wnaeth y rhan fwyaf o gyrff sector cyhoeddus y DU brofi lefelau uwch o ymosodiadau yn ail hanner 2018, ac adroddwyd bod y rhain wedi tarddu o wlad ffynhonnell benodol oedd yn cynyddu ei gweithgareddau seiber fel rhan o'r tensiynau yn y cyfnod yn dilyn y digwyddiad yn Salisbury. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth Seiber yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl staff ac Aelodau Etholedig.

- Nododd y Pwyllgor ar adeg yr adolygiad fod 92% o staff sydd gan fynediad at gyfrifiadur wedi darllen a derbyn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth sy'n golygu bod 8% o staff heb wneud hynny, gan beri risg i'r Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y gallai'r 8% fod wedi cynnwys staff oedd ar absenoldeb salwch, gwyliau a chyfnod mamolaeth ar adeg yr adolygiad a bod y canran hwnnw yn debygol o fod wedi gostwng yn y cyfnod ers cynnal yr adolygiad. Roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r farn fod 92% yn lefel rhesymol o gydymffurfiaeth.

- Nododd y Pwyllgor fod yr adolygiad wedi tynnu sylw at ddiffyg monitro rhagweithiol o raddau a natur bygythiadau seiber cyfredol a newydd ac y gallai hynny amharu ar lwyddiant yn y maes hwn. Roedd hyn yn destun pryder i'r Pwyllgor. Ceisiodd eglurhad p'un a oes camau'n cael eu cymryd i adfer y diffyg hwn.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y data angenrheidiol ar gael a'i fod yn cael ei fonitro ond nid ar lefel Pennaeth Gwasanaeth; mae angen cryfhau trefniadau sgriwtini ac adrodd ar y lefel hon. Nid oes ychwaith swydd benodol o fewn y Gwasanaeth a'r strwythur TG sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn ac mae nifer o swyddi'n rhannu agweddau o gyfrifoldebau Seiber-Ddiogelwch sy'n golygu bod monitro rhagweithiol yn cael ei esgeuluso'n anfwriadol.

- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â'r trydydd adolygiad dilyn-i-fyny ar Fynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau fod y gyfradd sicrwydd yn parhau'n Gyfyngedig ar ôl tair blynedd a thri diweddariad. Awgrymodd y Pwyllgor ar ôl cymaint o amser efallai fod yr adolygiad wedi colli'i berthnasedd a bod y potensial i ddysgu gwersi ohono yn gyfyngedig.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er eu bod wedi etifeddu'r archwiliad o gyfnod blaenorol a system archwilio flaenorol, fod gwahaniad dyletswyddau yn reolaeth bwysig i liniaru yn erbyn y risg o dwyll.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 er gwaetha'r ffaith nad yw rheolaethau penodol wedi'u gweithredu i safon sy'n bodloni'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, fod yna fesurau diogelu eraill mewn lle i sicrhau bod y Gyflogres yn gywir ac yn ddibynadwy ac i wneud yn siŵr fod yr Awdurdod ond yn talu gweithwyr sydd yn y Cyngor mewn gwirionedd ac yn gweithio iddo. Er ei fod yn reolaeth resymol i'w rhoi ar waith, mae strwythur y Tîm Cyflogau yn golygu nad oes modd ei weithredu ar hyn o bryd. Unwaith mai'r ailstrwythuro yn gyflawn ac bydd Gweinyddwr System ffurfiol yn y tîm, gellir gweithredu'r elfen gwahaniad dyletswyddau yn y system mewn modd sy'n cael ei reoli'n briodol. Hefyd, mae systemau ariannol yr Awdurdod – gan gynnwys y Gyflogres – yn destun archwiliad gan Archwilio Allanol fel rhan o'r broses archwilio cyfrifon. Mae angen i'r Archwilwyr felly gael sicrwydd fod y wybodaeth y mae'r system Gyflogau yn ei chynhyrchu yn gywir a byddant yn cynnal gwiriadau rheolaethau system i'r perwyl hwnnw; nid yw Archwilio Allanol wedi canfod unrhyw broblemau gyda'r system Gyflogau. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn cyflawni'r dasg o wahanu dyletswyddau mewn tîm bach fel hwn. Cadarnhaodd y Swyddog fod yr archwiliad wedi cynnwys gwahaniad

dyletswyddau ar draws ystod o systemau ac mai'r Gyflogres oedd yr unig system lle mae yna faterion yn parhau, ond bod hynny hefyd o ganlyniad i'r ffaith fod y Gyflogres wedi bod yn rhan o brosiect gwella hirfaith sy'n ceisio integreiddio'r Gyflogres gyda rhan o'r system Adnoddau Dynol.

- Nododd y Pwyllgor fod y dull o gynnal archwiliadau nawr yn hollol seiliedig ar risg; yn wyneb hyn, holodd a yw'n bosib y bydd rhai archwiliadau cyfredol yn gollwng o'r cynllun wrth i'w statws risg newid.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y meysydd sy'n cario mlaen i 2019 i gyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**Penderfynwyd ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r eglurhad a roddwyd gan y Swyddogion, fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn ac yn nodi'r cynnydd diweddaraf gan Archwilio Mewnol mewn perthynas â'i ddarpariaeth gwasanaeth, darpariaeth sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 6. MATERION A RISGIAU ARCHWILIO MEWNOL SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi diweddariad ar statws a manylion y risgiau sy'n weddill a godwyd gan Archwilio Mewnol, fel yr oeddynt ar 27 Ionawr, 2019.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y graff yn rhan 3.4 yr adroddiad yn dangos bod perfformiad y Cyngor wedi gwella'n raddol o ran rhoi sylw i faterion a risgiau a godwyd gan Archwilio Mewnol a bod y ganran weithredu gyffredinol yn 93%. Bu llithriad bach yn y perfformiad o ran rhoi sylw i faterion a risgiau Uchel/Coch/Ambr o 93% yn chwarter 3 i 87% yn Chwarter 4 hyd yma, ac mae hynny oherwydd fod sawl mater/risg angen sylw ym mis Rhagfyr yn y Gwasanaeth Addysg ond ar yr un pryd bu newid yn yr aelod staff sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r system 4action. Ar 27 Ionawr, 2019 nid oedd unrhyw risgiau Uchel yn weddill; roedd 7 o risgiau Canolig yn weddill a 12 o risgiau Isel, ac o'r system archwilio flaenorol, roedd 1 risg Coch yn weddill, 18 o risgiau Amber, 18 o risgiau Melyn a 3 risg Gwyrdd. Roedd manylion am faterion/risgiau sy'n weddill i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad.

Dywedodd y Swyddog fod nifer o'r argymhellion sydd dal yn y system wedi cael eu gwneud o dan yr hen system a gweinyddiaeth Archwilio Mewnol ac efallai nad yw'r rheini mor berthnasol bellach i'r system newydd. Mae Penaethiaid Gwasanaeth wedi cael cyngor i ohirio'r gofyn i ddiweddaru argymhellion tan fod y system newydd wedi'i gweithredu'n llawn (yn ddibynnol ar ddatrys rhai problemau meddalwedd). Felly, yn hytrach na chwblhau ymarfer glanhau data ar y data presennol, fe wnaed penderfyniad gyda chymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 i ddechrau o'r newydd. Bydd materion a risgiau a godwyd ers cyflwyno'r dull archwilio newydd yn cael eu rhoi i mewn i'r system newydd. Cadarnhaodd y Swyddog fod yr argymhellion sy'n ymwneud â'r Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A, bellach i gyd wedi derbyn sylw. Disgwylir y bydd Archwilio Mewnol yn gallu darparu adroddiad yn seiliedig ar y system newydd i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf.



DRAFT

Nododd y Pwyllgor fod risg Ambr mewn perthynas â Rhenti Tai – Parodrwydd am Gredyd Cynhwysol, dal angen sylw a bod y risg yn codi o'r ffaith nad yw'r system Orchard ar gyfer Rhenti Tai wedi'i diweddaru i gyd-fynd â'r broses adennill bresennol. Holodd y Pwyllgor a oes camau'n cael eu cymryd, ar ôl adnabod y risg, i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi, gan gofio po hiraf y byddant yn aros heb eu datrys, y mwyaf fydd y goblygiadau i'r Cyngor o ran yr incwm y dylai fod yn ei gasglu fel rhan o'r drefn adennill dyledion rhent.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'r Gwasanaeth yn edrych ar y mater penodol hwn fel rhan o'r archwiliad presennol ar Ddiwygio Lles ac y byddai'n rhoi diweddariad i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd nodi cynnydd y Cyngor wrth roi sylw i'r argymhellion a materion/risgiau Archwilio Mewnol sy'n parhau i fod angen sylw a godwyd ers mis Ebrill 2014, fel maent wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad ac yn y diweddariad llafar a roddwyd gan y Pennaeth Archwilio a Risg.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 7. DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2019/20

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20. Roedd yr adroddiad yn nodi'r ymagwedd y mae'r Cyngor yn bwriadu ei mabwysiadu o ran trefniadau buddsoddi a benthyca ar gyfer 2019/20 yng ngoleuni'r sefyllfa economaidd gyfredol a'r sefyllfa a ragwelir.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar brif bwyntiau'r Strategaeth fel a ganlyn -

- Wrth osod y Strategaeth Rheoli Trysorlys, rhaid ystyried y sefyllfa economaidd gan fod hyn yn cael effaith ar gyfraddau buddsoddi, cost benthyca a chadernid ariannol gwrth-bartïon. Nodir y rhagolygon economaidd yn fanwl yn Atodiad 3 yr adroddiad a cheir crynodeb o'r prif bwyntiau yn adran 3.1. Y brif neges yw bod disgwyl i'r cynnydd o ran lefelau cyfraddau llog fod yn raddol ac isel iawn yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf gyda'r dychweliadau ar fuddsoddiad hefyd yn aros yn isel.
- Nodi'r sefyllfa'r Cyngor o ran benthyca allanol yn Nhabl 2 yr adroddiad ac ynddo ceir crynodeb o fenthyciadau cyfredol y Cyngor nad ydynt wedi eu talu eto.
- Un o brif swyddogaethau rheoli'r Trysorlys yw ariannu cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Caiff rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2019/20 hyd at 2021/22 yn cael ei nodi yn Nhabl 3 yr adroddiad a nodir hefyd y modd y bwriedir ariannu'r rhaglen gyfalaf. Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) y Cyngor sy'n cyfrifo angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er mwyn ariannu gwariant cyfalaf. Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r CFR ond dim ond gan y swm nad yw'n cael ei ariannu o grantiau cyfalaf, derbyniadau, cronfeydd wrth gefn neu refeniw. Bydd y CFR hefyd yn lleihau'n flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP), sef tâl a godir ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn i sicrhau bod y Cyngor yn gallu ad-dalu dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus. Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl MRP ar y CFR a lefel y benthyca allanol a mewnol (h.y. benthyca o falansau arian parod y Cyngor) yn Nhabl 4 yr adroddiad.
- Mae'r Cyngor yn parhau i fod mewn sefyllfa o dan-fenthyca. Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy na sydd ei angen arno nac ychwaith cyn i unrhyw anghenion ddod i'r fei dim ond er mwyn elwa o fuddsoddiad y symiau ychwanegol a fenthycwyd oherwydd dros y tymor canol, disgwylir i'r dychweliadau ar fuddsoddiad barhau i fod yn is na

chyfraddau benthyca tymor hir. Rhoddir ystyriaeth i ail-drefnu dyledion gan gymryd i ystyriaeth y ffactorau a amlinellir yn adran 6.5.2 yr adroddiad.

- Bydd y Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd hyblyg tuag at y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio ei gronfeydd arian parod ei hun i ariannu gwariant cyfalaf er mwyn lleihau taliadau llog trwy ohirio'r angen i fenthyca'n allanol. Fodd bynnag, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau os oes angen yn rhan bwysig o'r strategaeth. Nodir manteision ac anfanteision benthyca mewnol yn yr hinsawdd sydd ohoni yn adran 6.3 yr adroddiad.
- Mae blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrwydd cyfalaf yn y lle cyntaf, hylifedd yn ail ac enillion ar fuddsoddiad yn drydydd. Bydd y Cyngor yn gwneud buddsoddiadau gyda gwrth-bartïon yn unol â'r polisi teilyngdod credyd a nodir yn adran 7.2 y strategaeth.
- Nid oes bwriad i wneud unrhyw newidiadau i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2018/19.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y pwyntiau fel a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor mai'r gyfradd log ar fenthyciadau PWLB yw 5.26% ar gyfartaledd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a fyddai o fantais i'r Cyngor geisio ailstrwythuro ei ddyledion er mwyn lleihau'r taliadau llog.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod yr Awdurdod yn adolygu ei fenthyciadau'n rheolaidd ar gyfer cyfleoedd i wneud arbedion ac yn asesu cost y taliadau cosb a delir o ganlyniad i ad-dalu benthyciadau yn gynnar yn erbyn yr arbedion y gellir eu gwneud trwy beidio â thalu'r llog. Mae'r cosbau am ad-dalu dyledion yn gynnar bron bob amser yn fwy na'r arbedion y gellir eu gwneud ar daliadau llog.

- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor yn defnyddio Link Asset Services i ddarparu cyngor ar reoli'r trysorlys. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw ymgynghorwyr y Cyngor yn cael eu hasesu am werth am arian o ystyried bod mai arian sydd gan y Cyngor i'w fuddsoddi.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod ymgynghorwyr y Cyngor hefyd yn darparu cyngor ar faterion heblaw buddsoddiadau gan gynnwys cyngor ar fenthyca a'u bod yn darparu gwasanaethau trwy hwyluso mynediad i farchnadoedd arian petai'r Cyngor yn dymuno manteisio ar y cyfle; hyfforddiant ar Reoli Trysorlys yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig, a thrwy ddiweddaru'r Cyngor am raddfeydd credyd. Cafodd y contract ei dendro a'i ddyfarnu i Link Asset Service ar sail ffi gystadleuol ac ystyrir eu bod yn darparu gwerth am arian.

- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi benthyca'n fewnol i ariannu gwariant cyfalaf. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch ai cyfraddau llog yw'r unig faen prawf gyda'r ymagwedd hon fel modd o leihau costau dyledion.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod cost benthyca'n allanol yn uwch ar hyn o bryd na'r dychweliadau petai'r Cyngor yn rhoi'r arian ar adnau sy'n golygu ei bod yn synhwyrol defnyddio balansau arian sydd dros ben yn hytrach na chymryd benthyciadau allanol newydd. I gael dychweliadau gwell, byddai'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu ymagwedd tuag at fuddsoddi a fyddai'n cynnwys mwy o risgiau gan olygu y byddai angen newid y Strategaeth Rheoli Trysorlys; nid yw hyn yn cael ei ystyried.

**Penderfynwyd derbyn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2019/20 ac argymell y Datganiad i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau ychwanegol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**8. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2019/20**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019/20.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar y prif bwyntiau fel a ganlyn -

- Bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ers mis Ebrill 2017, wedi mabwysiadu ymagwedd at ei waith sy'n gwbl seiliedig ar risg, a bod arbedion effeithlonrwydd pellach wedi'u cyflawni trwy fabwysiadu dull archwilio darbodus, sef methodoleg sy'n seiliedig ar Feddwl drwy systemau.
- Yn draddodiadol, roedd archwilio yn canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r gorffennol a sicrhau cydymffurfiaeth. Cyfrifoldeb Rheolwyr yw cydymffurfiaeth gydag Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd ar briodoldeb ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Cyngor fel y'i gweithredir gan y Rheolwyr. Yn benodol, bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd cyflawn i'r Pwyllgor ac i uwch reolwyr ynghylch effeithiolrwydd prosesau llywodraethu a risg mewnol ac yn darparu sicrwydd i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Mae yna hefyd ffynonellau eraill y gellir eu defnyddio i ddarparu sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r model tair llinell amddiffyn (fel y'i disgrifir yn yr adroddiad) yn fframwaith y gellir ei ddefnyddio i ddod â'r ffynonellau sicrwydd hyn at ei gilydd a bydd yn rhoi sicrwydd i Aelodau, rheoleiddwyr y sector ac archwilwyr allanol bod rheolaethau a phrosesau priodol yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae meddalwedd rheoli risg newydd y Gwasanaeth (4risk) yn darparu cyfleuster i gofnodi'r tair llinell sicrwydd amrywiol mewn un lle, a bydd yn cael ei gyflwyno yn 2019/20.
- Er mwyn darparu ymagwedd hyblyg a chymryd i ystyriaeth newidiadau yn y sefydliad a'r amgylchedd risg, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi alinio ei waith â'r gofrestr risg gorfforaethol a bydd yn cyfarfod ag uwch reolwyr i drafod eu risgiau, eu pryderon a'u gofynion diweddaraf. Yn y modd hwn, bydd y Gwasanaeth yn gwbl gyfarwydd â, ac yn ymwybodol o, faterion sy'n dod i'r amlwg a byddant yn gallu canolbwyntio eu hadnoddau ar y meysydd ble mae'r flaenoriaeth a'r risg fwyaf.
- Felly, yn hytrach na bod yn gynllun sefydlog am flwyddyn, bydd y Cynllun Archwilio ar gyfer 2019/20 yn newid yn ystod y flwyddyn yn dilyn newidiadau i'r gofrestr risg gorfforaethol. O ganlyniad, nid yw'r Strategaeth yn darparu rhestr derfynol o'r prosiectau y bydd y Gwasanaeth yn eu cyflawni yn ystod 2019/20 ond yn hytrach yn darparu'r archwiliadau y mae'r Cyngor wedi'u nodi fel ei brif flaenoriaethau ar hyn o bryd fel y'u rhestrir yn Atodiad A yr adroddiad.
- Yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol y cytunwyd arni, bydd yr holl risgiau / materion a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio sydd â graddfeydd Cyfyngedig neu Dim Sicrwydd (yn ôl y diffiniad o raddfeydd sicrwydd a nodir yn Atodiad B yr adroddiad) yn cael eu dilyn i fyny.
- Bydd adroddiad un dudalen newydd yn ategu protocol adrodd dwyieithog newydd, a fydd hefyd, am y tro cyntaf, yn fodd i'r Gwasanaeth ddarparu adroddiadau archwilio mewnol terfynol y cytunwyd arnynt ar gyfer yr Aelodau Portffolio ar y Pwyllgor Gwaith ac aelodau'r Pwyllgor hwn a thrwy hynny gynyddu tryloywder ac atebolrwydd a gwella ansawdd y sicrwydd a ddarperir. Bydd cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi mewn dogfen weithredol ar wahân a rennir rhwng y Gwasanaeth ac Archwilio Mewnol yn unig.
- Mae gan y Gwasanaeth raglen sicrwydd a gwella ansawdd ar waith er mwyn sicrhau gwelliant parhaus y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Bydd y Gwasanaeth yn

mabwysiadu cyfres symlach o fesurau perfformiad fel yr amlinellir yn Atodiad C yr adroddiad er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw ei waith.

- Bydd cyflawni’r strategaeth yn galluogi'r Pennaeth Archwilio a Risg i gwrdd â’r gofyniad i gynhyrchu barn archwilio fewnol flynyddol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor fod ffocws gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y strategaeth wedi newid o sicrhau cydymffurfiaeth (sicrhau bod polisïau, prosesau neu weithdrefnau yn cael eu gweithredu) i ddarparu sicrwydd (sicrhau priodoldeb polisïau, prosesau neu weithdrefnau at ddibenion rheoli risg a chwrdd â rheoliadau). Holodd y Pwyllgor a fyddai hyn yn ehangu'r swyddogaeth Archwilio Mewnol.

  Yn seiliedig ar y Strategaeth, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg, na fydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ceisio dweud wrth Reolwyr beth i'w wneud ond yn hytrach yn cynghori Rheolwyr y gall yr hyn y maent yn ei wneud, neu ddim yn ei wneud, beri i’r Cyngor fod yn agored i risg.

- Nododd y Pwyllgor y bydd cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu rhannu rhwng y gwasanaeth ac Archwilio Mewnol yn unig, sy'n golygu na fydd y Pwyllgor yn eu gweld. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y cafeat hwn yn cyfyngu ar allu'r Pwyllgor i arfer ei rôl oruchwylio o ran sicrhau bod y Rheolwyr yn ymateb i faterion / risgiau a godwyd yn y ffordd iawn ar yr adeg iawn.

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg y bydd y cynlluniau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau Cyfyngedig neu Dim Sicrwydd yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Ar gyfer adolygiadau lle mae graddfa Sicrwydd yn Rhesymol, nid yw'r risgiau a nodwyd yn debygol o fod yn ddigon sylweddol i warantu eu dwyn i sylw'r Pwyllgor. Y nod yw sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn cael mewnwelediad i ffynonellau risg allweddol yn y Cyngor a’r modd y cânt eu rheoli yn hytrach na chyflwyno i'r Pwyllgor pob un risg / cam gweithredu a godir. Caiff arwyddocâd risg ei bennu gan archwaeth risg y Cyngor gyda phob risg yn cael ei sgorio yn erbyn matrics risg y Cyngor. Mae'r risg yn cael ei gosod yn ôl risgiau coch, ambr a melyn y Cyngor. Mae meysydd lle mae risgiau coch ac ambr wedi'u nodi yn debygol o fod yn destun adroddiad archwilio sicrwydd cyfyngedig a byddant o’r herwydd yn dod gerbron y Pwyllgor. Yn unol ag archwaeth risg y Cyngor, nid oes angen dwyn sylw'r Pwyllgor at feysydd lle mae'r risgiau'n Felyn neu'n gymedrol.

- Holodd y Pwyllgor a oedd mabwysiadu ymagwedd fwy strategol tuag at reoli risg yn cynyddu’r tebygolrwydd y byddai problem bosibl yn cael ei cholli.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod angen i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, er mai tîm bychan ydyw, ganolbwyntio ar y risgiau y mae'r Cyngor yn eu hystyried sydd fwyaf arwyddocaol ac a fyddent, petaent yn cael eu gwireddu, yn debygol o effeithio ar allu’r sefydliad i gyflawni ei amcanion corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi penderfynu mai'r risgiau sydd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw'r rhai pwysicaf, ac o’r herwydd, mae’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn alinio ei waith â'r gofrestr risg gorfforaethol fel y ffordd fwyaf effeithiol a phendant o sicrhau bod y risgiau hynny'n cael eu rheoli. Dywedodd y Swyddog y bydd y Gwasanaeth, yn ystod 2019/20, hefyd yn ymgymryd â darn o waith ar dwyll yn benodol, maes ble mae'r potensial am dwyll a / neu afreoleidd-dra ar ei fwyaf. Felly mae sawl agwedd ar ddull y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o adolygu effeithiolrwydd system y Cyngor ar gyfer rheolaeth fewnol ac mae’n cwmpasu’r gofrestr risg gorfforaethol, yn asesu



DRAFT

pa mor agored yw'r Cyngor i dwyll ac yn edrych i'r gorwel i weld a oes unrhyw faterion yn dod i'r amlwg mewn mannau eraill a all effeithio ar Cyngor.

- Nododd y Pwyllgor fod monitro cynnydd yn erbyn cynllun sy'n newid yn gyson yn cael ei gydnabod fel her yn y Strategaeth. Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch a oedd y Gwasanaeth dal yn bwriadu cynhyrchu blaen raglen o weithgaredd a fydd hefyd yn rhoi manylion am y drefn y bydd adolygiadau'n cael eu cynnal gyda'r rhesymeg fod rhaglen strwythuredig gydag amserlenni yn fwy defnyddiol i'r Pwyllgor o ran gwybod beth sy'n cael ei gynllunio, pryd y bydd yn digwydd a phryd y bydd y Pwyllgor yn gwybod amdano.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y rhestr o feysydd blaenoriaeth ar gyfer eu harchwilio fel y'i cyflwynwyd yn ystyried y dyddiau sydd ar gael i'r Gwasanaeth a bod y rhestr yn cynrychioli'r hyn y mae'r Gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni yn y cyfnod. Fodd bynnag, o ystyried y ffaith bod amgylchiadau'n newid ac y gall materion newydd ddod i'r amlwg, gall meysydd y rhoddir llai o flaenoriaeth iddynt ddisgyn oddi ar y rhestr. Dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig bod y rhestr o flaenoriaethau yn cynnwys elfen o hyblygrwydd, gan ganiatáu cyfle i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ymateb i faterion a all ymddangos ar fyr rybudd. Bydd yr adroddiad diweddaru ar y gwasanaeth Archwilio Mewnol y mae'r Pwyllgor yn ei dderbyn bob chwarter yn nodi'r dyddiad targed / dyddiad gwirioneddol ar gyfer adrodd ar bob maes i'r Pwyllgor ac a yw hyn wedi'i gyflawni.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a fydd y symudiad tuag at ddull archwilio sy'n seiliedig ar risg yn effeithio ar gynhyrchiant y Gwasanaeth gan fod gwaith y Gwasanaeth yn fwy tebygol o fod yn waith ymatebol na gwaith a gynlluniwyd, gan olygu y bydd yn rhoi'r gorau i weithio ar yr aseiniad sydd dan sylw er mwyn ymateb i bethau eraill wrth iddynt godi.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg na fydd y Gwasanaeth yn buddsoddi adnoddau gwerthfawr mewn adolygiadau cynllunio ymhell ymlaen llaw, rhai na fyddant efallai'n cael eu cyflawni pan ddaw yr amser oherwydd eu bod wedi cael eu disodli gan ddigwyddiadau neu ofynion eraill pwysicach. Er bod y Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal a chwblhau adolygiad y mae wedi paratoi ar ei gyfer, bydd y ffordd hyblyg newydd o weithio yn ei alluogi i gwestiynu cwmpas yr archwiliadau o ran a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL.**

## 9. PROSES CAU CYFRIFON 2018/9

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 yn amlinellu newid arfaethedig i broses cymeradwyo cyfrifon 2018/19.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod newidiadau i'r amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi'r Datganiadau Ariannol drafft a therfynol o dan Reoliad Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio). Mae Rheoliadau 2018 yn golygu bod yn rhaid i'r datganiadau ariannol drafft gael eu llofnodi a'u cyhoeddi erbyn 15 Mehefin (yn hytrach na 30 Mehefin mewn blynyddoedd blaenorol) ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 a rhaid i'r datganiadau ariannol archwiliedig terfynol gael eu hystyried, eu cymeradwyo a'u cyhoeddi erbyn 15 Medi (o'i gymharu â 30 Medi yn flaenorol). Mae hyn mewn paratoad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 a thu hwnt pan fydd y dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon drafft

yn cael ei ddwyn ymlaen ymhellach i 31 Mai gyda'r cyfrifon archwiliedig i'w cyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf. Mae'r amserlen yn 2.2 yr adroddiad yn nodi'r dyddiadau allweddol yn y broses o baratoi'r cyfrifon, eu cyhoeddi a'u cymeradwyo gan y pwyllgor fel y maent yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2017/18 ac fel y byddant yn berthnasol yn dilyn y newidiadau, i 2018/19, 2019/20 ac yna i 2020/21 ymlaen. Bydd yr amserlen ddiwygiedig yn heriol iawn, yn bydd yr angen i gwblhau'r cyfrifon terfynol drafft erbyn 14 Mai, dim ond 6 wythnos ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, yn anodd iawn i'r staff dan sylw. Yn ogystal, gallai'r angen i gwblhau erbyn canol mis Mai effeithio ar gywirdeb ac ansawdd y datganiadau ariannol drafft a gallai arwain at lefel uwch o waith archwilio allanol ac addasiadau dilynol wedi'r archwiliad.

Dywedodd y Swyddog, oherwydd yr amserlen fyrrach sydd ar gael ar gyfer cwblhau'r datganiadau ariannol drafft a'r anawsterau ymarferol a ddaw yn ei sgil, ac o gofio nad oes angen cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer cysylltiedig CIPFA o'r datganiadau ariannol drafft gan Bwyllgor o'r Cyngor cyn iddynt gael eu cyhoeddi a'u cyflwyno i'w harchwilio, cynigir bod y datganiadau ariannol drafft yn cael eu llofnodi gan y Swyddog Adran 151 (y Swyddog Ariannol cyfrifol) a'u cyflwyno i'w harchwilio cyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Byddai'r newid arfaethedig yn caniatáu amser ychwanegol ar gyfer cwblhau'r datganiadau ariannol drafft. Gan gyfeirio at galendr pwyllgorau'r Cyngor, mae cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi'i raglennu yn y calendr ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf, 2019 gyda chyfarfod mis Mehefin wedi'i raglennu i'r pwrpas penodol o gymeradwyo datganiadau ariannol drafft 2018/19. Yng ngoleuni'r cynnig bod y datganiadau ariannol drafft yn cael eu llofnodi gan y Swyddog Adran 151 cyn iddynt gael eu dwyn gerbron y Pwyllgor, gellid cyflwyno'r datganiadau drafft i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf yn lle hynny.

Wrth gefnogi'r newid a'r amserlen ddiwygiedig a gynigiwyd gan y Swyddog Adran 151, nododd y Pwyllgor y newidiadau i'r amserlen statudol gyda rhai amheuon gan gredu bod y newidiadau yn rhoi pwysau ar yr Adrannau Cyllid i baratoi a chwblhau'r datganiadau ariannol drafft mewn amserlen afrealistig o dynn gyda goblygiadau posibl o ran cywirdeb ac ansawdd y datganiadau ariannol.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r newid yn yr amserlen a chaniatáu i'r Swyddog Adran 151 lofnodi'r datganiadau ariannol drafft cyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.**
- **Cytuno bod datganiadau ariannol 2018/19 yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a drefnwyd ar gyfer Gorffennaf, 2019.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**10. RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynwyd Blaen raglen Waith y Pwyllgor i'w hadolygu ac ar gyfer sylwadau.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, yng ngoleuni'r penderfyniad bod y datganiadau ariannol drafft am gael eu cyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf y Pwyllgor ac nad oes angen o'r herwydd galw cyfarfod Pwyllgor ym mis Mehefin, y bydd yr eitemau y bwriedir eu hystyried yng nghyfarfod mis Mehefin yn cael eu hail-raglennu i mis Gorffennaf neu, lle bo'n bosibl, byddant yn cael eu dwyn ymlaen i gyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor.

**Penderfynwyd nodi a derbyn y Flaenr aglen Waith yn amodol ar y newid a amlinellwyd gan y Pennaeth Archwilio a Risg.**

DRAFT

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Y Pennaeth Archwilio a Risg i ddiweddaru'r Flaen raglen Waith yn unol â hynny.**

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni dan Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd.**

## 12. COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant fod system feddalwedd newydd - 4risk wedi'i chyflwyno i gofnodi a monitro risgiau, y mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn ac unrhyw gamau sydd i'w cyflwyno i liniaru'r risgiau hynny ymhellach. Er nad yw wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn y system 4risk, mae gwaith yn cael ei wneud i gofnodi sicrwydd yn erbyn rheolaethau presennol. Bydd tair llinell sicrwydd yn cael eu cofnodi ar 4risk sef – y llinell sicrwydd gyntaf –gweithredu rheng flaen gan berchennog y camau rheoli; ail linell sicrwydd - rheolaeth reoli gyffredinol, rheolaeth ariannol; y drydedd llinell sicrwydd a ddarperir gan archwilwyr mewnol ac allanol a chyrff rheoleiddio eraill. Bydd hyn yn caniatáu i effeithiolrwydd y rheolaethau presennol gael eu hasesu a'u sicrhau ar yr amod nad yw'r risg weddilliol wedi cael ei gor-amcangyfrif na'i than-amcangyfrif.

Dywedodd y Swyddog fod y fersiwn o'r Gofrestr Risg Corfforaethol a gyflwynwyd yn adlewyrchu sylwadau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn adolygiad o'r gofrestr. Mae fformat y gofrestr yn cynnwys y Llinellau Sicrwydd a fydd yn cael eu llenwi wrthi risgiau gael eu hadolygu a'u harchwilio.

Amlygir y prif risgiau coch i'r Cyngor yn adran 7 yr adroddiad. Ar wahân i ychwanegu risg YM40, ni fu unrhyw newidiadau eraill i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Eglurodd y Swyddog nad yw risg YM35 bellach yn cael ei chategoreiddio fel risg a'i bod yn hytrach yn fater sy'n derbyn sylw ac y bydd o'r herwydd yn ei thynnu oddi ar y gofrestr.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor fod y gofrestr ar ôl diystyru YM35, yn cynnwys 39 o risgiau a oedd, yn eu barn nhw yn ormodol ar lefel gorfforaethol gan olygu bod canolbwyntio ar y risgiau lefel uchel iawn yn anodd. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai rhai risgiau yn cael eu rheoli'n fwy priodol ar lefel adrannol.

  Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant y rhoddir blaenoriaeth i risgiau lle mae'r risg weddilliol yn Goch ac Ambr. Dywedodd y Swyddog y gellid cymryd dwy ymagwedd wrth lunio'r gofrestr risg - un lle mae'r gofrestr yn cynnwys risgiau generig yn unig sydd wedi'u disgrifio'n llai cywir ond sy'n golygu bod llai o risgiau ar y gofrestr, neu'r llall lle mae'r risgiau yn fwy yn fanwl ac felly'n fwy niferus ond yn haws eu harchwilio yn eu herbyn. Mae'r Awdurdod wedi dewis y fersiwn fanwl ond mae'n cael ei adolygu.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y system 4risk yn darparu dull adrodd gwell sy'n golygu y gall yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth graffu ar y risgiau pwysicaf ac sydd hefyd yn caniatáu iddynt gael eu grwpio i themâu fel y gellir dod o hyd i risgiau mewn perthynas â maes penodol yn gyflym. Mae fersiwn fanwl o'r gofrestr risg yn fwy defnyddiol o safbwynt Archwilio Mewnol.

- Nododd y Pwyllgor bod yna feysydd lle mae'r lefelau risg gynhenid a'r risg weddilliol yr un fath hyd yn oed ar ôl cymryd camau i'w lliniaru / lleihau. Nododd y Pwyllgor ymhellach y gellid gwella'r gofrestr fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer rheoli risg petai'r risgiau'n cael eu dyddio i ddangos pryd y cawsant eu codi, eu hadolygu a phryd y byddent yn debygol o gael eu cau.

  Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant y bydd gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â lefelau sicrwydd a'r sicrwydd y gellir ei gymryd o reolaethau a fydd yn asesu effeithiolrwydd rheolaethau wrth leihau risg. Yn ogystal, caiff pob cofrestr risg ei hadolygu gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth neu wasanaeth perthnasol dros y misoedd nesaf i sicrhau eu bod yn gadarn. Dywedodd y Swyddog fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn fersiwn gryno at ddibenion y pwyllgor sy'n amlygu prif bwyntiau. Mae'r system 4risk yn cynnwys llawer mwy o fanylion am bob risg a sut mae'n cael ei rheoli gan gynnwys dyddiadau a llinellau amser.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y modd yr ymdrinnir â Brexit a gofynnodd a ddylai'r risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit fod yn fater i'w harchwilio naill ai gan y Pwyllgor Archwilio neu gan y Pwyllgor Sgriwtini.

  Hysbyswyd y Pwyllgor fod yna gofrestr risg ar gyfer Brexit a arweinir gan y Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn ymdrechu i sicrhau bod y strwythurau priodol ar waith yn fewnol yn seiliedig ar y senarios achos gwaethaf a'r achos gorau. Yr her mewn perthynas â Brexit yw'r "rhai anhysbys" sy'n golygu y byddai'n gynamserol i'w craffu ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad a nodi hefyd fod y Pwyllgor yn cymryd sicrwydd o'r ffaith bod y risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor yn cael eu cydnabod a'u rheoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 23.04.2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dylan J Williams<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Stephen Nicol<br>Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol |
| **Natur a Rheswm dro Adrodd:**<br>**CAMAU GWEITHREDU A GYNIGIWYD yn ystod cyfarfod 12.02.2019: Gofyn i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gadarnhau'r canlynol -**<br><br>**• A oes unrhyw reswm penodol dros y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol ac a yw'r cynnydd yn arwydd bod tuedd yn datblygu.**<br>**• Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau gategori "Ymosodiad Corfforol gan Berson" yn y Tabl Math o Ddigwyddiad ar dudalen 6 yr adroddiad.** | |


## 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 12.02.2019. Er bod cyfanswm y digwyddiadau wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, nododd y Pwyllgor fod nifer yr ymosodiadau corfforol (digwyddiadau yn ymwneud â chleientiaid a disgyblion) bron â dyblu yn ystod yr un cyfnod, o 56 yn 2016/17 i 103 yn 2017/18. Nododd y Pwyllgor hefyd fod digwyddiadau yn cael eu cofnodi o dan gategori ar wahân ar gyfer ymosodiadau corfforol gan berson er na wahaniaethir yn ddigonol rhwng y ddau gategori. Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad am y cynnydd mewn ymosodiadau corfforol a sut y gellid gwyrdroi'r tueddiad hwn.

## 2. Cefndir

**A oes unrhyw resymau penodol am y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol ac a yw'r cynnydd yn arwydd bod tuedd yn datblygu.**


Wrth adolygu'r digwyddiadau, canfuwyd fod 11 o safleoedd ychwanegol ar draws y Gwasanaethau wedi adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18 o gymharu â 2016/17. Gallai hynny fod o ganlyniad i well ymwybyddiaeth ar draws yr holl Wasanaethau am yr angen i adrodd am y digwyddiadau hyn. Dim ond chwe safle oedd wedi adrodd am ddigwyddiadau yn 2016/17. Ni wnaeth dau safle oedd wedi adrodd am ddigwyddiadau yn 2016/17 gofnodi unrhyw ddigwyddiadau yn 2017/18.




Ni wnaeth safle 2 a 5 adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18

| Lleoliad | Mân | Difrifol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Safle 1 | 35 | 0 | 35 |
| Safle 2 | 1 | 0 | 1 |
| Safle 3 | 4 | 0 | 4 |
| Safle 4 | 4 | 0 | 4 |
| Safle 5 | 2 | 0 | 2 |
| Safle 6 | 9 | 1 | 10 |

Mae'r siart isod yn dangos y digwyddiadau a gafodd eu hadrodd fesul safle yn 2017/18. Defnyddiwyd label rhif ar gyfer pob safle wnaeth adrodd am ddigwyddiad yn 2016/17 a 2017/18. Defnyddiwyd label llythyren ar gyfer safleoedd a wnaeth adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18 yn unig. Mae hyn er mwyn adnabod safleoedd a wnaeth adrodd am ddigwyddiadau ddwy flynedd ar ôl ei gilydd.





| Lleoliad | Mân | Difrifol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Safle 1 | 36 | 2 | 38 |
| Safle 3 | 3 | 0 | 3 |
| Safle 4 | 8 | 2 | 10 |
| Safle 6 | 20 | 3 | 23 |
| | | | |
| Safle A | 1 | 0 | 1 |
| Safle B | 12 | 0 | 12 |
| Safle C | 1 | 0 | 1 |
| Safle D | 3 | 0 | 3 |
| Safle E | 1 | 0 | 1 |
| Safle F | 1 | 0 | 1 |
| Safle G | 1 | 0 | 1 |
| Safle H | 2 | 0 | 2 |
| Safle I | 1 | 0 | 1 |
| Safle J | 1 | 0 | 1 |
| Safle K | 3 | 0 | 3 |
| Safle L | 1 | 0 | 1 |
| Safle M | 1 | 0 | 1 |

Adroddodd safle 1 am 3 digwyddiad ychwanegol yn 2017/18 o gymharu â 2016/17. Cynnydd bychan iawn yw hwn ac ni ystyrir ei fod yn arwyddocaol.

Adroddodd Safle 6 am 23 digwyddiad yn 2017/18 o gymharu â 10 digwyddiad yn 2016/17. Mae hyn yn gynnydd o 13 digwyddiad. Dangosodd adolygiad o'r digwyddiadau hyn fod y rhan fwyaf yn ymwneud â dau gleient oedd â phroblemau penodol.

Cafodd cyfanswm o 29 o ddigwyddiadau eu cofnodi ar gyfer y safleoedd ychwanegol a wnaeth adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18. Gallai hynny fod o ganlyniad i well ymwybyddiaeth am yr angen i wneud hynny.




Mae'r graff uchod yn dangos ffigyrau ar gyfer Ymosodiadau Corfforol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Ymddengys fod y niferoedd wedi gostwng rhwng 2013 a 2017. Ymddengys fod y duedd wedi gwrthdroi rhwng 2016/17 a 2017/18.

Mae digwyddiadau Ymosodiad Corfforol Ymddygiad Heriol wedi bod yn uwch nag Ymosodiad Corfforol erioed. Fel y nodwyd, mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys digwyddiadau lle nad oedd bwriad i achosi niwed o angenrheidrwydd. Felly, mae'n bosib fod y niferoedd a gofnodwyd yn uwch o ganlyniad i well ymwybyddiaeth.

Roedd niferoedd Ymosodiadau Corfforol ar eu hisaf yn 2015/16, sef 20, ond maent wedi cynyddu ers hynny. Dylid monitro'r ffigyrau hyn yn fwy gofalus gan y gallai fod bwriad i achosi niwed.

**Y gwahaniaeth rhwng y ddau gategori "Ymosodiad Corfforol gan Berson" yn y Tabl Math o Ddigwyddiad ar dudalen 6 yr adroddiad.**

Mae'r system gofnodi damweiniau yn cynnwys dau gategori ar gyfer Ymosodiadau Corfforol. Y categorïau yw Ymosodiad Corfforol ac Ymosodiad Corfforol Ymddygiad Heriol. Mae categorïau Ymosodiad Corfforol yn cynnwys digwyddiadau lle mae person wedi taro person arall.

Roedd y niferoedd o 103 (2017/18) a 56 (2016/17) yn ymwneud â digwyddiadau 'Ymosodiad Corfforol Ymddygiad Heriol'. Digwyddiadau yw'r rhain lle byddai galluedd meddyliol yn cael ei gwestiynu ac efallai nad oedd bwriad i ymosod yn gorfforol ar berson arall.

Mae'r categori Ymosodiad Corfforol yn cynnwys digwyddiadau lle na chafodd galluedd meddyliol ei gwestiynau. Y ffigyrau ar gyfer y categori hwnnw oedd 45 (2017/18) a 37 (2016/17). Yn 2017/18 cofnodwyd 9 o ddigwyddiadau yn erbyn staff, y cyfan yn fân ddigwyddiadau.

## 3. Argymhelliad

Monitro ffigyrau 2018/19 a'u cymharu â'r uchod. Os yw'r niferoedd yn parhau i godi byddai'n rhaid ymchwilio ymhellach gyda'r nod o leihau digwyddiadau yn y dyfodol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 23 Ebrill 2019 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rhesymau dros Adrodd::**<br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor. | |

## 1. Rhagarweiniad

1.1. The Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 ynghylch:

- Adroddiadau Archwilio mewnol a gyhoeddwyd ers 12 Chwefror 2019
- Gwaith dilyn i fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol
- Gweithrediad y camau rheoli
- Y Cynnydd a wnaed o ran darparu'r Cynllun gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19
- Graddfeydd Sicrwydd a Adolygwyd
- Datganiad Polisi Rheoli Risg

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Hefyd gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

## Ebrill 2019

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**
**Pennaeth Archwilio a Risg**

# Cynnwys

**Cynnwys** .......... **1**
**Adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar** .......... **2**
Taliadau Uniongyrchol .......... 2
Recriwtio a Chadw .......... 3
Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) .......... 4
Swyddogaeth Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth .......... 4
**Dilyn i fyny adroddiadau Archwilio Mewnol** .......... **6**
Gwaith dilyn i fyny sydd wedi'i drefnu .......... 6
**Gweithredu Camau Rheoli** .......... **7**
**Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19** .......... **8**
Strategaeth Archwilio Mewnol 2019/20 .......... 8
**Diffiniadau Graddfa Sicrwydd Diwygiedig** .......... **9**
**Datganiad Polisi Rheoli Risg** .......... **10**
**Atodiad A – Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19** .......... **11**
**Atodiad B – Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd** .......... **18**

## Adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

1. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a nifer y Materion / Risgiau a godir yng nghynllun gweithredu'r adroddiad. Yn unol â'r agwedd newydd tuag at archwilio mae aelodau'r Pwyllgor a'r Deilydd Portffolio perthnasol wedi derbyn copïau llawn o'r adroddiad ar wahân.

2. Rydym wedi cwblhau **pedwar** adroddiad yn y cyfnod hwn a cheir crynodeb ohonynt isod:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Uchel | Cymedrol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol | **Cyfyngedig** | 0 | 0 | 5 | 5 |
| Recriwtio a Chadw | **Rhesymol** | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) | **Rhesymol** | 0 | 2 | 1 | 3 |
| Swyddogaeth Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth | **Rhesymol** | 0 | 2 | 9 | 11 |

### Taliadau Uniongyrchol

| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

3. Mae taliadau uniongyrchol yn daliadau arian parod y gall y Cyngor eu gwneud i unigolion neu eu cynrychiolydd fel y gallant drefnu eu gwasanaethau eu hunain i gwrdd ag anghenion gofal a chymorth cymdeithasol (a nodwyd mewn asesiad) yn hytrach na defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol, neu a gomisiynir, gan y Cyngor. Gall y Cyngor wneud taliadau uniongyrchol ar gyfer y cyfan, neu ran o anghenion gofal a chymorth y person. Maent yn ddewis amgen i'r Cyngor o ran trefnu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar ran unigolion ac maent yn rhoi mwy o ddewis, hyblygrwydd ac annibyniaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth.

4. Mae'r Cyngor wedi trawsnewid ei wasanaeth taliadau uniongyrchol yn cilyn cyflwyniad rheoliadau newydd gan ryddhau cyllid i gyflogi Swyddog Taliadau Uniongyrchol a gwella'r isadeiledd a'r gefnogaeth sydd ar gael i dderbynyddion.

5. Mae nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n dewis defnyddio taliadau uniongyrchol wedi cynyddu'n raddol, gan godi o 59 ym mis Medi 2016 i 150 ym mis Tachwedd 2018, ac o ganlyniad mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gwneud arbedion ariannol sylweddol (yn 2017/18 fe wnaeth taliadau uniongyrchol greu arbediad o £34,968 ac fe wnaeth osgoi gwerth £180,277 o gostau i'r gwasanaeth).

6. Yn dilyn ein hadolygiad, rydym wedi dod i'r casgliad fod polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn adlewyrchu rheoliadau statudol ac yn diffinio cyfrifoldebau, mae'r gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn cael llofnodion y defnyddwyr gwasanaeth ar gytundebau rhwymol gyfreithiol ac mae trefniadau cefnogaeth ac eiriolaeth effeithiol yn bodoli. Mae'r Gwasanaeth yn gwneud taliadau cywir a phrydlon, ac mae'n eu monitro'n briodol, ac mae'n monitro ei berfformiad yn rheolaidd.

7. Fodd bynnag, fe wnaeth ein profion ganfod nad yw cynlluniau gofal a chymorth yn cefnogi taliadau'n gyson, nid yw'r gwasanaeth yn adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn gyson ac nid yw bob tro'n cael cadarnhad o gymeradwyaeth y Panel. Nid yw'r gwasanaeth yn cynnal asesiadau risg i sicrhau bod y sawl sy'n derbyn y taliadau yn ymwybodol o'r risgiau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol a bod yr unigolyn yn gyfforddus gyda lefel y risg a aseswyd a'r gefnogaeth a ddarperir. Ymhellach, oherwydd diffyg tabledi electronig, nid yw'r gwasanaeth bob tro'n derbyn tystiolaeth o ymwneud y defnyddwyr gwasanaeth mewn penderfyniadau ynglŷn â'u cynllun gofal a chymorth.

8. Er bod y gwasanaeth yn bwriadu adolygu ei brosesau yn ystod cam 2 o weithredu'r system WCCIS[1], ar hyn o bryd ni allwn ond roi '**Sicrwydd Cyfyngedig'** ar reolaeth risg, llywodraethiant a'r fframwaith rheolaeth fewnol ar y cyfan, ac rydym wedi codi pum Mater/Risg i'r rheolwyr roi sylw iddynt.

## Recriwtio a Chadw

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** | **0** | **Critigol** |
| | **0** | **Mawr** |
| | **2** | **Cymedrol** |

9. Roedd ein hadolygiad yn mynd ati i geisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**Oes gan y Cyngor drefniadau digonol yn eu lle er mwyn gallu recriwtio, datblygu a chadw staff â'r sgiliau priodol i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol?**

[1] Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn system gyfrifiadurol newydd sy'n cael ei chyflwyno yng Nghymru gyda'r nod o helpu swyddogion proffesiynol y maes iechyd a gofal cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal yn agosach at gartrefi pobl. Pan fydd yn gwbl weithredol, bydd yn rhoi i nyrsus cymunedol, timau iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion, becymmau cymorth digidol fel y gallant weithio'n well gyda'i gilydd.

10. Ar y cyfan, mae ein hadolygiad yn dod i'r casgliad fod gan y Cyngor nifer o reoliadau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau ei fod yn recriwtio, datblygu ac yn cadw staff â'r sgiliau priodol er mwyn gallu darparu gwasanaethau o safon uchel, effeithlon ac effeithiol a chyflawni ei amcanion.

11. Er ein bod wedi codi dau mater / risg sydd angen sylw rheolwyr, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid ac wedi nodi'r manylion mewn dogfen ar wahân. Felly, o fewn cwmpas ein hadolygiad, gallwn ddarparu **lefel rhesymol o sicrwydd** ar lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn.

## Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 2 | Mawr |
| | 1 | Cymedrol |

12. Roedd ein hadolygiad yn mynd ati i geisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

    **Oes gan y Cyngor drefniadau digonol yn eu lle er mwyn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyddiannus fel yr amlinellir yn Neddf Tai (Cymru) 2014 mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr?**

13. Ar y cyfan, mae ein hadolygiad yn dod i'r casgliad fod gan y Cyngor nifer o reoliadau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau ei fod gallu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyddiannus fel yr amlinellir yn Neddf Tai (Cymru) 2014 mewn perthynas a Sipsiwn a Theithwyr.

14. Er ein bod wedi codi tri mater / risg sydd angen sylw rheolwyr, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr ac wedi nodi'r manylion mewn dogfen ar wahân. Felly, o fewn cwmpas ein hadolygiad, gallwn ddarparu lefel **resymol** o sicrwydd ar lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn.

## Swyddogaeth Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 2 | Mawr |
| | 9 | Cymedrol |

15. Roedd ein hadolygiad yn mynd ati i geisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**Yw'r prosesau a'r protocolau a sefydlwyd gan y Gwasanaeth ar gyfer rheoli'r swyddogaeth hamdden yn ddigon cadarn ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol er mwyn darparu'r Cyngor â sicrwydd o lywodraethiant ac atebolrwydd cryf?**

16. Mae ein hadolygiad yn casglu fod y Gwasanaeth wedi gweithredu newidiadau cadarnhaol drwy wella'r strwythur llywodraethiant, cadarnhau rolau a chyfrifoldebau, gwella atebolrwydd lleol a digido prosesau. Mae yn y broses o gyflwyno newidiadau tecach o ran y ffyrdd y mae'n rheoli canolfannau hamdden gan ganolbwyntio ar foderneiddio'r ddarpariaeth hamdden a newid diwylliant ei swyddogaethau er mwyn canolbwyntio fwy ar y cwsmer a nodi agwedd fwy masnachol. Fodd bynnag, fe wnaethom adnabod meysydd o wendid yn y fframwaith rheoli presennol, a ddylid delio â nhw wrth weithredu newidiadau pellach.

17. Er ein bod wedi codi 11 o Faterion / Risgiau sydd angen sylw rheolwyr sydd o lefel cymedrol i isel ar lefel gwasanaeth, mae canlyniad yr adolygiad yn bennaf bositif ac mae'r Gwasanaeth mewn sefyllfa dda i allu gwella. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr, yr ydym wedi nodi'r manylion mewn dogfen ar wahân. Felly, o fewn cwmpas ein hadolygiad, rydym yn gallu darparu **sicrwydd rhesymol** o'r llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth o'r maes hwn.

## Dilyn i fyny adroddiadau Archwilio Mewnol

18. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny adroddiadau gyda graddfa sicrwydd o 'Cyfyngedig' neu is. Rydym wedi cwblhau **un** adolygiad dilyn i fyny yn y cyfnod hwn, gyda'r canlyniadau canlynol:

| Teitl yr Archwiliad | Adolygiad | Dyddiad Cwblhau | Lefel Sicrwydd | Critigol | Mawr | Isel | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Chwefror-19 | **Rhesymol** | 0 | 1 | 1 | 2 |

### Gwaith dilyn i fyny sydd ar y gweill

19. Mae gennym **un** adroddiad dilyn i fyny â graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig' ar y gweill ar hyn o bryd:

| Teitl yr Archwiliad | Adolygiad | Dyddiad dilyn i fyny | Lefel Sicrwydd | Critigol | Mawr | Cymedrol | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cydymffurfiaeth Safon Diogelwch Data Diwydiant Cardiau Talu** | Dilyn i fyny am yr ail dro | ~~Oct-18~~ Maw-19[2] | **Cyfyngedig** | 0 | 6 | 4 | 10 |

### Gwaith dilyn i fyny sydd wedi'i drefnu


20. Mae gennym **bedwar** archwiliad dilyn i fyny wedi eu trefnu ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn:

| Teitl yr Archwiliad | Adolygiad | Dyddiad dilyn i fyny | Lefel Sicrwydd | Critigol | Mawr | Cymedrol | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm** | Dilyn i fyny tro cyntaf | Meh-19 | **Cyfyngedig** | 0 | 2 | 1 | 3 |
| **Mân Ddyledwyr** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Gorff-19 | **Cyfyngedig** | 0 | 4 | 7 | 11 |
| **Rheoliadau Systemau – Mynediad a Gwahaniad Dyletswyddau** | Dilyn i fyny am y pedwerydd tro | Gorff-19 | **Cyfyngedig** | 0 | 3 | 2 | 5 |
| **Taliadau Uniongyrchol** | Dilyn i fyny tro cyntaf | Medi-19 | **Cyfyngedig** | 0 | 0 | 5 | 5 |

[2] Dilyn i fyny wedi'i ohirio tan Mawrth 2019 ar gais y Pennaeth Adnoddau o ganlyniad i gerrig milltir yn newid yn y prosiect.

## Gweithredu Camau Rheoli

21. Mae'r graff isod yn amlygu perfformiad rheolwyr wrth fynd i'r afael â 'Materion/Risgiau' a rhoi gweithredoedd ar waith. Fel y gellir ei weld, mae perfformiad wedi sefydlogi dros y flwyddyn ddiwethaf gyda gostyngiad bach yn ddiweddar wrth weithredu camau i fynd i'r afael â 'Materion/Risgiau' Uchel, Coch ac Ambr.




| | Ch3 2016/17 | Ch4 2016/17 | Ch1 2017/18 | Ch2 2017/18 | Ch3 2017/18 | Ch4 2017/18 | Ch1 2018/19 | Ch2 2018/19 | Ch3 2018/19 | Ch4 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel Coch Ambr | 81% | 81% | 80% | 90% | 97% | 91% | 90% | 93% | 93% | 89% |
| Canolig Melyn | 82% | 88% | 87% | 90% | 94% | 90% | 92% | 94% | 94% | 93% |
| Isel Gwyrdd | 66% | 80% | 80% | 83% | 90% | 90% | 91% | 92% | 93% | 92% |

22. Rydym wedi cael rhybudd gan ein darparwyr meddalwedd y bydd fersiwn newydd, wedi'i huwchraddio o'r system olrhain gweithredoedd ar gael cyn hir, sy'n darparu nodweddion ychwanegol ac sy'n lleihau'r baich o weinyddu'r system. Felly, byddwn yn ymgymryd ag ymarfer i lanhau'r data hanesyddol ac i adolygu ffurfwedd y system.

23. Byddwn hefyd yn cymryd y cyfle i adolygu ein fframwaith adolygu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i'r Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cydymffurfio â'r agwedd archwilio newydd ac yn gryno, yn berthnasol ac yn amserol.

## Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19

24. Mae’r Cynllun ar gyfer 2018/19 i’w weld yn Atodiad A. Ers penodiad y ddau Uwch Archwiliwr newydd, mae’r gwaith wedi mynd rhagddo’n dda. Mae gwaith bron â dod i ben mewn **pedwar** faes sydd wedi eu cynnwys fel risgiau ambr gweddilliol yn y gofrestr risg gorfforaethol:

    - CONTEST – Gwrthderfysgaeth a’r Dyletswydd ‘PREVENT’
    - Gwiriad Iechyd Llywodraethiant Gwybodaeth Ysgolion – cwblhawyd gan Zurich Municipal. Adroddiad drafft wedi’i dderbyn ar 4 Ebrill 2019.
    - Diwygio Lles
    - Cardiau talu safonau diogelwch data'r diwydiant (PCIDSS)

25. Rydym wedi cwblhau ein gwaith ar **ddau** ymchwiliad:

    - Mewn ymateb i gŵyn, rydym wedi gwneud argymhellion i Gorff Llywodraethu er mwyn gallu gwella

    - Mewn ymateb i ddarganfod trosedd posib dan Ddeddf Diogelu Data 55 (DDD) 1998 gan unigolion anhysbys, fe gynhaliodd Swyddog Diogelu Data’r Cyngor gynnal Ymchwiliad Diogelu Data DDD. Cyfeiriodd y Gwasanaeth y mater at Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Oherwydd diffyg tystiolaeth, penderfynodd yr Heddlu nad oedd gobaith realistig o erlyniad a chadarnhawyd na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Ymatebodd yr ICO ei fod wedi penderfynu nad oedd camau rheoleiddio yn briodol yn yr achos hwn. Mae’r penderfyniad yn ganlyniad i ffeithiau penodol yr achos ac mae wedi cadarnhau ei fod yn ystyried bod y mater bellach wedi’i gau. Byddwn yn cynnwys adolygiad o’r materion sydd wedi eu hadnabod yn ein Gwiriad Iechyd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol sydd wedi’i gynllunio ar gyfer dechrau 2019/20.

### Strategaeth Archwilio Mewnol 2019/20

26. Mae gwaith wedi dechrau ar Strategaeth Archwilio 2019/20 ac mae **pedwar** archwiliad ar y gweill ar hyn o bryd. Rydym yn bwriadu cwblhau ac adrodd ar y canlyniad i’r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2019.

    - Trefniadau Parhad Busnes
    - Diogelu Corfforaethol
    - Gwytnwch TG
    - Gwiriad Iechyd Llywodraethiant Gwybodaeth Corfforaethol

## Diffiniadau Graddfa Sicrwydd Diwygiedig

27. Mae safon 2410 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn dweud bod angen i'r 'cyfathrebiad terfynol o ganlyniadau ymgysylltu' (adroddiadau archwilio) gynnwys casgliadau perthnasol. Ble mae hynny'n briodol, fe ddylai archwilwyr mewnol roi barn, a allai fod yn raddfeydd, casgliadau neu ddisgrifiadau eraill o'r canlyniadau. Mae ffurfio'r farn yn dibynnu ar ystyried y canlyniadau a'u harwyddocâd.

28. Yn unol â'r uchod ac fel rhan o welliant parhaus ein hymagwedd tuag at archwilio, rydym wedi adolygu'r diffiniadau o'n Graddfeydd Sicrwydd ac mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad B.

29. Mae'r diffiniadau newydd yn rhoi gwell adlewyrchiad o farn yr archwilwyr ar ddiwedd pob archwiliad.

## Datganiad Polisi Rheoli Risg

30. Rydym wedi adolygu'r Datganiad Polisi Rheoli Risg yn unol ag argymhellion y Gwiriad Iechyd Rheoli Risg, a gynhaliwyd yn ddiweddar gan ein hyswirwyr, Zurich Municipal.
31. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r datganiad polisi gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ystyried y datganiad yn y lle cyntaf ar 29 Ebrill cyn ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwaith sydd ar gael.
32. Byddwn yn cyflwyno'r datganiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w adolygu ym mis Gorffennaf 2019.

# Atodiad A – Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19[3]

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/03/19 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETH GYFAN** | | | | | | | |
| Corfforaethol | Parhad Busnes | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 - YM9<br>C1 - YM38 | 10 | 0 | Wedi'i gario ymlaen i 2019/20 | Gorff 2019 |
| Corfforaethol | Diwygio Lles | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2<br>YM10 | 10 | 10 | | Gorff 2019 |
| Corfforaethol | Diogelu Corfforaethol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D2[4]<br>YM11 | 7 | 7 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |
| Corfforaethol | CONTEST (Atal Terfysgaeth ac Atal Radicaleiddio) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | E1<br>YM27 | 10 | 8 | | Gorff 2019 |
| Corfforaethol | Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D1<br>YM34 | 15 | 10 | | Gorff 2019 |
| Corfforaethol | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2<br>YM31 | 8 | 8 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |
| Corfforaethol | Caffael Corfforaethol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D2 - YM20<br>D2 - YM22 | 18 | 18 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |



[3] Cofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i chymeradwyo gan yr UDA 10/09/18
[4] Risg Gweddilliol wedi lleihau o C1 (Coch) i D2 (Ambr)

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/03/19 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Rheoli Risg | Proses newydd wedi'i gweithredu ym mis Hydref 2017. Meddalwedd 4Risk wedi'i gweithredu Medi 2018. | n/a | n/a | n/a | **Lefel 3 'Rheoledig'**[5] | **Chwefror 2019** |
| Corfforaethol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Mae'n destun adolygiad penodol gan Swyddfa Archwilio Cymru | n/a | 0 | 0 | Wedi'i gario ymlaen i 2019/20 | |

[5] Casgliad Gwiriad Iechyd Annibynnol a gynhaliwyd gan Zurich Municipal yn seiliedig are u model aeddfedrwydd, sy'n cynnwys pum lefel o aeddfedrwydd

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/03/19 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – gofynion Rhan 9 | Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Estyniad gan LlC i weithredu cyllidebau wedi'u cyfuno | n/a | 0 | 0 | Yn amodol ar ymgynghoriad – wedi'i gario ymlaen i 2019/20 | |
| Corfforaethol | Rheoli Risg Twyll | Gofyniad gan PSIAS | n/a | 0 | 0 | Wedi'i gario ymlaen i 2019/20 | |
| **ADNODDAU** | | | | | | | |
| Adnoddau | Incwm – Dilyn i Fyny Mân Ddyledwyr | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol | Amherthnasol | 15 | 18 | **Sicrwydd Cyfyngedig** | **Rhagfyr 2018** |
| Adnoddau | Cyflogres | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol | Amherthnasol | 0 | 0 | Yn amodol ar newidiadau parhaus – wedi'i gario ymlaen i 2019/20 | |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | |
| TGCh | Archwiliad TG – Seiber Ddiogelwch | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 YM28 | 20 | 20 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Chwefror 2019** |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/03/19 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AD | Recriwtio a Chadw | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM5 | 15 | 15 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Ebrill 2019** |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Rhaglen Ynys Ynni | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 - YM13<br>C2 - YM16<br>D2 - YM17 | 0 | 0 | Wedi'i gario ymlaen i 2019/20 | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamdden – buddsoddiad ariannol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B3 YM32 | 0 | 0 | Wedi'i gario ymlaen i 2019/20 | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth | Cais y Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol mawr. Wedi'i gario drosodd o 2017 / 1 | Amherthnasol | 15 | 24 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Ebrill 2019** |
| **PRIFFYRDD, GWASTRAFF A GWASANAETHAU EIDDO** | | | | | | | |
| Priffyrdd | Gwasanaethau Parcio Ceir – Gorfodaeth | Cynllun peilot newydd mewn lle o 2017/18 gyda sefydliad allanol ar gyfer gorfodi rheolau parcio | Amherthnasol | 0 | 0 | Dilëwyd – blaenoriaeth isel | |
| Priffyrdd | Trefniadau Monitro Contract Priffyrdd | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | Amherthnasol | 10 | 10 | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/03/19 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **TAI** | | | | | | | |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM29 | 10 | 14 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Ebrill 2019** |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | | | | |
| Oedolion | Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM25 | 9 | 9 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Gorff 2018** |
| Oedolion | Taliadau Uniongyrchol | Cais y Pennaeth Gwasanaeth (cariwyd ymlaen o 2017/18) | Amherthnasol | 20 | 20 | **Sicrwydd Cyfyngedig** | **~~Medi 2018~~ Ebrill 2019** |
| **GWASANAETHAU PLANT** | | | | | | | |
| Plant | Bwrdd Integredig Cyflenwi Gwasanaeth | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM36 | 0 | 0 | Wedi'i gario ymlaen i 2019/20 | |
| **DYSGU** | | | | | | | |
| Dysgu | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – gweithredu mewn Ysgolion | Cofrestr Risg Gorfforaethol. Bydd yn ddibynnol ar Wiriad Iechyd annibynnol gan ein hyswirwyr. | C2 YM38 | 0 | 9 | Wedi'i ymgymryd ag ef gan Zurich Municipal | ~~Ebrill 2019~~ Gorff 2019 |
| Dysgu | Adolygiadau Thematig Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm Ysgolion | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | Amh | 20 | 20 | **Sicrwydd Cyfyngedig** | **~~Medi 2018~~ Rhagfyr 2018** |
| **ARDYSTIO GRANTIAU** | | | | | | | |
| | Grant Rhentu Doeth Cymru | Anghenion grantiau | Amherthnasol | 10 | 10 | **Sicrwydd Sylweddol** | **Gorffennaf 2018** |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/03/19 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Grant Gwisg Ysgol | | | | | **Sicrwydd Rhesymol** | **Medi 2018** |
| | Grant Gwella Addysg | | | | | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| | Grant Datblygu Disgyblion | | | | | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| | **CYFANSWM DYDDIAU ARCHWILIO** | | | **235** | **230** | | |
| **DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Gwaith Dilyn i Fyny | Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig angen eu dilyn i fyny, yn cynnwys adrodd a gweinyddu 4Action | | 70 | 75 | | |
| | Menter Dwyll Genedlaethol | | | 10 | 13 | | |
| | Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, ymholiadau ac atgyfeiriadau | | | 50 | 46 | | |
| | Cau gwaith y flwyddyn flaenorol | | | 19 | 19 | | |
| | Ymgynghoriaeth Corfforaethol | | | 65 | 74 | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/03/19 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn cynnwys hyfforddiant i aelodau | | | 40 | 33 | | |
| | Adolygiad Rheoli | | | 25 | 23 | | |
| | **CYFANSWM** | | | **279** | **283** | | |
| **DYDDIAU NAD OES MODD CODI AMDANYNT (DDIM YN GYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Risg ac Yswiriant | | | 20 | 19 | | |
| | Gweinyddu Cyffredinol | | | 40 | 40 | | |
| | Datblygiad Personol ac Adolygiad, Cyfarfodydd 121 a Thîm | | | 20 | 11 | | |
| | Rheoli, yn cynnwys cysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi cynllun archwilio | | | 39 | 39 | | |
| | Gwyliau, yn cynnwys blynyddol, statudol, arbennig a salwch | | | 362 | 360 | | |
| | Hyfforddiant a Datblygiad staff, yn cynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg | | | 111 | 114 | | |
| | **CYFANSWM** | | | **592** | **583** | | |
| | **CYFANSWM ADNODD** | | | **1096** | **1096** | | |
| | **ADNODD SYDD AR GAEL** | | | **1096** | **1096** | | |
| | **DIFFYG O RAN ADNODD** | | | **0** | **0** | | |

Tudalen 41

## Atodiad B – Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | Mae'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn **dda**.<br><br>**Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw Faterion/Risgiau sylweddol na materol.** |
| Sicrwydd Rhesymol | Mae'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn **rhesymol.**<br><br>**Mae yna fân newidiadau yn y rheolaeth o risgiau a/neu reoliadau ond does dim risgiau i gyflawniad yr amcanion. Gall y Rheolwyr a Penaethiaid Gwasanaeth eu datrys.** |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Mae'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol yn y rheolaeth o risgiau a/neu reoliadau sy'n achosi risg i gyflawniad yr amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.** |
| Dim Sicrwydd | Mae **diffygion sylweddol** i'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol yn rheolaeth o risgiau a/neu reoliadau a fydd yn arwain at fethiant i gyflawni amcanion. Mae angen sylw brys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith o bosib.** |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Archwilio 2019 – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1177A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Atodiad 1.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cynnwys


Cynllun Archwilio 2019

| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Archwiliad o Gyfrifon | 4 |
| Archwiliad perfformiad | 8 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 9 |
| Ffi, tîm archwilio ac amserlen | 10 |
| Datblygiadau yn y dyfodol ar fy ngwaith archwilio | 12 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – cyfrifoldebau perthnasol | 13 |
| Atodiad 2 – gwaith perfformiad yn amlinelliad archwilio y llynedd sy’n parhau o hyd | 16 |
| Atodiad 3 – datblygiadau eraill yn y dyfodol | 17 |

# Cynllun Archwilio 2019

## Crynodeb

1 Fel eich archwilydd allanol, fy amcan i yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol ac sy'n cyflawni fy rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio ac ardystio a yw eich datganiadau ariannol yn 'wir ac yn deg';
- asesu a oes gennych drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni'r dyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i fy ngalluogi i wneud argymhellion i wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu i wella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

2 Diben y cynllun hwn yw nodi fy ngwaith arfaethedig, pryd y caiff ei wneud, cost y gwaith hwn a phwy fydd yn ei wneud.

3 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

4 Nodir fy nghyfrifoldebau i, ynghyd â rhai'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

## Archwiliad o gyfrifon

5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyflwyno tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch'. Mae hyn yn darparu sicrwydd bod y cyfrifon yn:

- rhydd rhag camddatgan, boed trwy wall neu dwyll;
- cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion perthnasol eraill; ac yn
- cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddol.


6 Rwyf i hefyd yn ystyried a oes gan Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ac adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.

7 Mae Atodiad 1 yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.

8 Mae'r gwaith archwilio yr wyf yn ei wneud i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i fy asesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol wrth ddarparu sicrwydd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae fy null archwilio yn cynnwys tri cham a nodir yn Arddangosyn 1.

## Arddangosyn 1: fy null archwilio

Mae'r tabl hwn yn crynhoi tri cham fy null archwilio ariannol, sef cynllunio, profi ac adrodd.




9 Nodir y risgiau camddatgan sylweddol sy'n arwyddocaol yn fy marn i ac felly y mae angen ystyriaeth archwilio arbennig arnynt yn Arddangosyn 2 ynghyd â'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â nhw. Mae meysydd archwilio allweddol eraill y bydd fy nhîm yn canolbwyntio arnynt wedi'u cynnwys hefyd.

## Arddangosyn 2: risgiau archwilio ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r prif risgiau archwilio ariannol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwiliad ariannol | Ymateb arfaethedig yr archwiliad |
|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| **Rheolwyr yn gwrth-wneud rheolaethau**<br>Mae'r risg y bydd rheolwyr yn gwrth-wneud rheolaethau i'w gweld ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gallai'r gwrth-wneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol i unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. |
| **Cyflawnder a therfyn gwariant ar sail galw**<br>Ym mis Medi 2018, rhagolwg y gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn y Gwasanaethau Plant yw £2.0 miliwn, a £0.9 miliwn yn y Gwasanaethau i Oedolion.<br>Mae gwasanaethau plant ac oedolion ar sail galw yn destun craffu yn y wasg a gan wleidyddion, a gall y gwariant fesul | • Cael dealltwriaeth o gynllun a gweithrediad y rheolaethau allweddol sydd ar waith i gofnodi cyflawnder a therfyn gwariant ar sail galw (Gwasanaethau Plant ac Oedolion);<br>• cynnal profion pwrpasol ar gyflawnder a therfyn gwariant ar sail galw (Gwasanaethau Plant ac Oedolion) gan gynnwys adolygiadau |

| Risg archwiliad ariannol | Ymateb arfaethedig yr archwiliad |
|---|---|
| defnyddiwr gwasanaeth fod yn sylweddol.<br>Ceir risg gynhenid o dwyll yn gysylltiedig â diffyg cofnodi gwariant er mwyn i'r Cyngor adrodd sefyllfa diwedd blwyddyn fwy ffafriol.<br>Ceir risg y gall y Cyngor gamddatgan gwariant yn sylweddol trwy'r balans croniadau a darpariaethau, gan gynnwys trafodiadau diwedd blwyddyn, mewn ymgais i adrodd sefyllfa diwedd blwyddyn fwy ffafriol. | manwl o groniadau ar gyfer y gwasanaethau hyn; ac<br>• adolygu a herio tybiaethau a wneir ynghylch amcangyfrifon diwedd blwyddyn a dyfarniadau i asesu cyflawnder a chywirdeb y gwariant ar sail galw a gofnodir. |
| **Meysydd eraill y bydd yr archwiliad yn rhoi sylw iddynt** | |
| **Safonau cyfrifyddu newydd**<br>Mae offerynnau ariannol IFRS 9 yn berthnasol o 1 Ebrill 2018 ymlaen, ac mae'n cyflwyno dull newydd wedi'i seilio ar egwyddorion ar gyfer dosbarthu a mesur asedau ariannol. Mae hefyd yn cyflwyno dull amhariad newydd ar gyfer asedau ariannol wedi'i seilio ar golledion disgwyliedig yn hytrach na cholledion gwirioneddol. Bydd hyn yn arwain at nodi colledion credyd disgwyliedig yn gynharach ac yn effeithio ar sut y cyfrifir y ddarpariaeth ddyled wael.<br><br>Mae refeniw IFRS 15 o gontractau â chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam wedi'i seilio ar egwyddorion ar gyfer adnabod refeniw sy'n codi o gontractau â chwsmeriaid. Y mae wedi'i seilio ar egwyddor graidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r refeniw a gaiff ei nodi ddangos y nwyddau neu'r gwasanaethau arfaethedig a gaiff eu trosglwyddo i'r cwsmer mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae corff yn disgwyl bod hawl ganddo iddo, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn gofyn am ddatgeliadau mwy helaeth nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu asesiad y Cyngor o effeithiau tebygol y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol newydd ac yn gwneud gwaith mewn ymateb i unrhyw risgiau camddatgan sylweddol a nodir. |

10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, yn hytrach rwy'n mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau sylweddol, hynny yw, y rhai hynny a all arwain at gamarwain darllenydd y cyfrifon. Bydd y lefelau yr wyf i'n barnu bod y camddatganiadau yn sylweddol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn cwblhau'r archwiliad.

11 At ddibenion adrodd, byddaf yn trin unrhyw gamddatganiad sydd islaw lefel 'ddibwys' (perthnasedd o 5% neu £100,000 pa un bynnag yw'r lleiaf) yn un nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ei ystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.

12 Mae fy ffioedd a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad wedi'i seilio ar y tybiaethau canlynol:

- mae'r datganiadau ariannol wedi'u darparu'n unol â'r amserlen y cytunwyd arni, o'r ansawdd disgwyliedig ac maent wedi bod yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd trylwyr;
- mae'r wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt[1];
- darperir lleoliad a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- mae gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i ddarparu'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau wedi'i gyfeirio ataf i; ac
- mae rhaglen waith yr Archwiliad Mewnol yn gyflawn ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i'r materion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

13 Yn ogystal â fy nghyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol statudol y Cyngor a nodir uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio dogfen i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

14 Rwyf i hefyd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon cronfa bensiwn y Cyngor. Paratowyd cynllun archwilio ar wahân ar gyfer archwilio'r gronfa bensiwn.

15 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gen i gyfrifoldebau statudol hefyd i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wrthwynebu yn ystod archwiliad.

16 Caiff ffioedd archwilio eu codi am waith a wneir i ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr. Gan y bydd gwaith archwilio yn dibynnu ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, nid yw'n bosibl amcangyfrif ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn.

17 Os wyf i'n derbyn cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

18 Mae fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn wedi'i nodi yn Arddangosyn 4.

[1] Mae'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion disgwyliedig o ran dogfennau gweithiol i gefnogi'r datganiadau ariannol ac mae'n cynnwys amserlen a chyfrifoldebau.

# Archwiliad perfformiad

19 Mae angen i mi gydbwyso fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig â’r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrlon, cymesur wedi’u seilio ar risg. Wrth gyflawni fy nyletswyddau, byddaf yn parhau i gyflawni’r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth trwy:

- ddarparu sicrwydd ynghylch trefn lywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus;
- cynnig cipolwg ar i ba raddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth wrth ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

20 Gan ei bod yn debygol y bydd Bil Llywodraeth Leol Cymru disgwyliedig yn cynnig nad yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn berthnasol i gynghorau mwyach, byddaf yn parhau i leihau gymaint â phosibl y gwaith sy’n canolbwyntio ar y broses o wella cynllunio.

21 Yn fy nghynllun archwilio ar gyfer 2018 esboniais fy mod i, mewn blynyddoedd blaenorol, wedi rhoi dibyniaeth ar fy ngwaith o dan y Mesur i fy helpu i gyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fodloni fy hun bod gan gynghorau drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) wrth ddefnyddio adnoddau. O ystyried ei bod yn debygol na fyddaf yn gallu dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur yn y dyfodol, yn 2019-20 ac mewn blynyddoedd dilynol, bydd pwyslais fy rhaglenni archwilio perfformiad lleol yn parhau i gyfochri’n fwy eglur â chyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

22 Yn 2018-19 archwiliais i ba raddau yr ydych yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eich amcanion llesiant. Yn ystod 2019-20 byddaf yn cynnal archwiliad arall i asesu i ba raddau yr ydych yn cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eich amcanion llesiant. Hwn fydd y darn olaf o waith y byddaf yn ei wneud i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn y Cyngor cyn cyflwyno fy adroddiad cylchol cyntaf i’r Cynulliad Cenedlaethol yn 2020. Yn ystod 2019-20, byddaf i hefyd yn ystyried sut i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Ddeddf yn ystod y cyfnod 2020 hyd 2024 a byddaf yn ceisio ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn ogystal â rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu fy null.

23 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol hefyd. Mae’r gwaith hwn wedi’i gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid ffioedd lleol. Mae’r astudiaethau hyn yn arwain ar y cyfan at adroddiad cenedlaethol wedi’i atgyfnerthu gan arferion da a chanlyniadau dysgu ar y cyd yn hytrach na gan adroddiadau lleol. Caiff canfyddiadau lleol, pan fyddant yn briodol, eu cofnodi mewn gwaith asesu gwelliant a’u hadrodd mewn adroddiadau gwella blynyddol yn dibynnu ar amseriad a phwyslais y casgliadau.

24 Wrth ystyried yr holl gasgliadau hyn, bydd fy rhaglen waith ar gyfer 2019-20 yn cynnwys:

Arddangosyn 3: rhaglen archwilio perfformiad

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Gwaith archwilio ac asesu gwelliant, gan gynnwys archwiliad o drefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant | Archwilio cyflawniad y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella, a chyhoeddi asesiad o berfformiad. |
| Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Archwiliad i ba raddau mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni ei amcanion llesiant. |
| Asesiad Risg a Sicrwydd | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fydd angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran y risgiau i'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. |
| Cynaliadwyedd Ariannol | Prosiect sy'n gyffredin i'r holl gynghorau lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yn sgil heriau presennol a'r rhai y disgwylir yn y dyfodol. |
| Cydnerthedd | Adolygiad o gydnerthedd y Cyngor, gan gynnwys capasiti a gallu ei weithlu, a rheoli risg a gwelliant cynaliadwy. |
| Astudiaethau Llywodraeth Leol 2019-20 | (Wedi'u hariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru)<br>Yn ddiweddar, daeth ymgynghoriad Archwilydd Cyffredinol ar ei flaenraglen waith i ben a bydd astudiaethau llywodraeth leol newydd a fydd yn dechrau yn 2019-20 yn cael eu cadarnhau yn fuan. |

25 Mae'r prosiectau archwilio perfformiad a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Archwilio y llynedd, sy'n parhau neu sydd wedi'u disodli gan brosiectau eraill drwy gytundeb â chi, wedi'u nodi yn Atodiad 2.

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

26 Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant y Cyngor.

27 Fel oedd yn wir y llynedd, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i mi ddarparu unrhyw adroddiad am ganfyddiadau ffeithiol o ran unrhyw lefelau gweithgarwch na chanlyniadau.

28 Mae fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn wedi'i nodi yn Arddangosyn 4.

# Ffi, tîm archwilio ac amserlen

## Ffi

29 Mae eich amcangyfrif o ffi ar gyfer 2019 wedi'i nodi yn Arddangosyn 4. Bu rhai newidiadau bach i fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2019, fodd bynnag bydd fy nhimau archwilio yn parhau i ysgogi effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau er mwyn sicrhau na fyddwch chi'n ysgwyddo unrhyw gynnydd yn y ffioedd.

### Arddangosyn 4: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2019, yn ôl maes y gwaith archwilio, ynghyd â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[2] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwiliad o gyfrifon[3] | 192,000 | 192,000 |
| Gwaith archwilio perfformiad[4] | 100,216 | 100,216 |
| Gwaith ardystio grantiau[5] | 135,000 | 135,000 |
| **Cyfanswm y ffi** | **427,216** | **427,261** |

30 Bydd cynllunio yn barhaus, ac efallai bydd angen newid fy rhaglen waith archwilio ac felly fy ffi, os bydd risgiau allweddol newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.

31 Mae rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a gosod ffioedd ar gael ar ein gwefan.

## Y tîm archwilio

32 Crynhoir prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 5.

### Arddangosyn 5: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

[2]Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ni chodir hyn arnoch chi
[3]Yn daladwy o fis Tachwedd 2018 hyd fis Hydref 2019
[4]Yn daladwy o fis Ebrill 2019 hyd fis Mawrth 2020
[5] Yn daladwy fel gwaith a wnaed

| Enw | Swyddogaeth | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@audit.wales |
| Ian Howse | Arweinydd Ymgysylltiad – Archwiliad Ariannol | 02920 264319 | ihowse@deloitte.co.uk |
| Huw Rees | Arweinydd Ymgysylltiad – Archwiliad Perfformiad | 02920 320599 | huw.rees@audit.wales |
| Wil Bevan | Rheolwr Archwilio Ariannol | 07584 144505 | wbevan@deloitte.co.uk |
| Non Jenkins | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 02920 320595 | non.jenkins@audit.wales |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 02920 829349 | alan.hughes@audit.wales |

33 Gallaf gadarnhau bod pob aelod o fy nhîm yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion. Hefyd, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ddwyn i'ch sylw.

## Secondiad staff

34 Bydd cyfrifydd dan hyfforddiant a gyflogir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd ar secondiad i'r Cyngor ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr 2020 hyd fis Mai 2020. Mae'r secondiad hwn yn rhan o fenter a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru sydd â'r nod o ganiatáu i gyfrifyddion dan hyfforddiant ehangu eu sgiliau a chael profiad o weithio mewn gwahanol rannau o sector cyhoeddus Cymru.

35 Er mwyn diogelu rhag unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilwyr, mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyngor wedi cytuno ar y rhagofalon canlynol:

- ni fydd y rhai ar secondaiad yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau a waherddir gan Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016 ac ni fydd yn cael arfer awdurdod yn ôl disgresiwn i ymrwymo'r Cyngor i sefyllfa neu driniaeth gyfrifyddu benodol;
- bydd y sawl ar secondiad yn cyflawni tasgau ar lefel gymharol is, caiff ei oruchwylio'n briodol ac ni fydd yn cyflawni swyddogaeth reoli nac yn rhan o unrhyw drefniadau gwneud penderfyniadau'r Cyngor; a
- bydd y secondiad am gyfnod byw o fewn ystyr Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016.

## Amserlen

### Arddangosyn 6: amserlen

Mae'r tabl hwn yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau ac adrodd ar fy ngwaith archwilio ar yr awdurdod.

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2019** | Ionawr 2019 | Mawrth 2019 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol | Chwefror – Medi 2019 | Medi 2019<br>Medi 2019<br>Hydref 2019 |
| **Gwaith perfformiad:**<br>• Archwiliad o'r Cynllun Gwella<br>• Archwiliad o'r Asesiad o Berfformiad<br>• Asesiad Risg a Sicrwydd<br>• Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Cydnerthedd<br>• Cynaliadwyedd Ariannol | Ebrill 2019<br>Tachwedd 2019<br>Hydref – Tachwedd 2019<br>Mai – Gorffennaf 2019<br>I'w gadarnhau<br>I'w gadarnhau | Mai 2019*<br>Rhagfyr 2019*<br>Rhagfyr 2019*<br>Medi 2019*<br>I'w gadarnhau<br>I'w gadarnhau |
| Adroddiad Gwella Blynyddol | Ebrill 2019 – Mai 2020 | Mehefin 2020* |
| Cynllun Archwilio 2020 | Hydref hyd - Rhagfyr 2019 | Ionawr 2020 |

* Amcangyfrif

# Datblygiadau yn y dyfodol ar fy ngwaith archwilio

36 Nodir manylion datblygiadau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau sydd ar ddod, i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol allweddol, seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwaith yr wyf wedi'i gynllunio ar barodrwydd y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer Brexit yn Atodiad 3.

# Atodiad 1

## Cyfrifoldebau perthnasol

### Archwiliad o gyfrifon

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a fy nyletswyddau i gyflawni eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyflwyno tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar:

- eu 'gwirionedd a'u tegwch', gan ddarparu sicrwydd eu bod yn:
  - rhydd rhag camddatgan, boed trwy wall neu dwyll;
  - cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion perthnasol eraill; ac yn
  - cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddol.
- cysondeb yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid imi nodi hefyd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion, os nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw, os nad yw'r datgeliadau angenrheidiol ynghylch cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill wedi'u gwneud neu os nad wyf i wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi asesu a oes gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau. I gyflawni hyn, rwy'n ystyried:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Sir Ynys Môn, fel yr adroddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fy adroddiad arni;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed, gan gynnwys gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiad hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff arolygu allanol eraill pan fo hynny'n berthnasol i fy nghyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion na thrafodir uchod, ac sy'n angenrheidiol yn fy marn i er mwyn cyflawni fy nyletswyddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn, i ofyn i mi yr Archwilydd Penodedig, gwestiynau ynghylch y cyfrifon, a phan fo hynny'n briodol, i herio eitemau yn y cyfrifon. Mae'n rhaid i mi ystyried hefyd a ddylwn i lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau'r rheolwyr neu'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu o'u cyfrifoldebau, sy'n cynnwys:

- paratoi’r datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu perthnasol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o adnoddau.

Mae rheolwyr yn cytuno i:

- ganiatáu i mi weld yr holl wybodaeth y mae’r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy’n berthnasol i baratoi’r datganiadau ariannol, fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- darparu gwybodaeth ychwanegol y mae’n bosibl y byddaf yn gofyn i’r rheolwyr amdani at ddiben yr archwiliad; a
- chaniatáu i mi siarad ag unrhyw bersonau yng Nghyngor Sir Ynys Môn sy’n angenrheidiol yn y fy marn i er mwyn cael tystiolaeth ar gyfer yr archwiliad.

Bydd angen i’r rheolwyr ddarparu sylwadau ysgrifenedig i mi yn cadarnhau:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi’r datganiadau ariannol;
- bod yr holl drafodiadau wedi’u cofnodi a’u cynnwys yn y datganiadau ariannol;
- y darparwyd gwybodaeth gyflawn i mi at ddibenion yr archwiliad; ac
- yn cefnogi tystiolaeth archwilio arall sy’n berthnasol i’r datganiadau ariannol neu’r honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os wyf i o’r farn bod hynny’n angenrheidiol neu’n ofynnol yn ôl y Safonau Archwilio Rhyngwladol.

## Archwiliad perfformiad

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi, trwy archwilio’r cyfrifon neu fel arall, fodloni fy hun bod y gan y corff drefniadau priodol ar waith i:

- sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- bod y corff, os yw’n ofynnol iddo gyhoeddi gwybodaeth yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 47 (gwybodaeth am berfformiad), wedi gwneud trefniadau priodol i gasglu a chofnodi’r wybodaeth a’i chyhoeddi fel sy’n ofynnol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran honno.

Mae’r Mesur yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hefyd yn pennu gofynion penodol i awdurdodau nodi amcanion gwella a chyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau perfformiad. Diffiniad awdurdodau gwella yw cynghorau sir a bwrdeistref sirol, awdurdodau parc cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae’r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, i bennu a yw’r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â’i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Mae’n rhaid i mi archwilio hefyd a yw’r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ac adrodd ar welliant.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn darparu adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn cysylltiad â hyn, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwiliadau ac asesiadau yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol (o dan adran 24). Bydd hyn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o arolygiadau arbennig.

Mae Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

(a) bennu amcanion llesiant, a

(b) chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n rhaid i mi gynnal archwiliad o'r fath ar bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd. Cyn diwedd y cyfnod, mae'n rhaid i mi adrodd ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad yn amlinelliad archwilio y llynedd sy'n parhau o hyd

Arddangosyn 7: gwaith perfformiad yn amlinelliad archwilio y llynedd sy'n parhau o hyd

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Archwiliad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**<br>Hyrwyddo Ynys Môn er mwyn Annog Datblygwyr Mawr i Fuddsoddi yn yr Ynys | Gweithdy Adborth | Rydym yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn yng ngwanwyn 2019. |
| **Adolygiad o Wasanaethau Hamdden**<br>Bydd yr adolygiad hwn yn darparu dirnadaeth o farn defnyddwyr gwasanaethau ar y canolfannau hamdden ac archwilio i ba raddau y mae'r gwasanaeth presennol yn diwallu eu hanghenion. Bydd hefyd yn ceisio pennu pa mor effeithiol yw'r ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau. | Gwaith maes | Rydym yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn erbyn dechrau tymor yr Hydref 2019. |

# Atodiad 3

## Datblygiadau eraill yn y dyfodol

### A. Newidiadau allweddol sydd ar y gweill i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Arddangosyn 8: newidiadau i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Mae'r tabl hwn yn rhoi manylion y prif newidiadau yn y dyfodol i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| Lesoedd IFRS16 | Disgwylir yn 2020-21 | Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon lesoedd presennol yn IAS 17. Y newid allweddol yw ei bod y dileu i raddau helaeth y gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredu ac ariannol ar gyfer lesddeiliaid, trwy gyflwyno un model cyfrifyddu i lesddeiliaid sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo nodi asedau a rhwymedigaethau ar gyfer yr holl lesoedd â chyfnod o fwy na 12 mis, oni bai bod gwerth isel i'r ased sylfaenol. Bydd yn arwain at nodi'r holl lesoedd ar y fantolen yn ased wedi'i seilio ar egwyddor hawl defnyddio â'r rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer ei logi yn y dyfodol. Mae hyn yn newid sylweddol i drefn gyfrifyddu lesddeiliaid. |

### B. Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella trwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth â phobl a rhannu adnoddau ar-lein. Y prif feysydd gwaith yw rheoli ariannol, staff a llywodraethu'r sector cyhoeddus.

Rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau'r Gyfnewidfa Arfer Da sydd wedi'u trefnu ac allbynnau o seminarau blaenorol.

### C. Brexit: paratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig ag aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd

Yn unol ag Erthygl 50 o Gytuniad Rhufain, bydd y Deyrnas Unedig yn peidio â bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019. Mae trafodaethau yn parhau, ac mae'n parhau i fod yn aneglur a gyrhaeddir cytundeb ar gyfnod pontio hyd at 31 Rhagfyr 2020, neu a fydd ymadawiad 'dim cytundeb' ar unwaith yn digwydd fis Mawrth nesaf.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dechrau rhaglen waith sy'n edrych ar y trefniadau y mae'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys holl gyrff y GIG, yn eu rhoi ar waith er mwyn paratoi ar gyfer ac ymateb i ymadawiad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn ar ffurf trosolwg lefel uchel i weld beth sy'n cael ei roi ar waith ym mhob rhan o sector cyhoeddus Cymru, a beth yw'r materion allweddol o safbwynt gwahanol rannau gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu gwneud y gwaith hwn ar ddau gam. Yn nhymor yr hydref 2018, cyhoeddodd alwad am dystiolaeth i lunio crynodeb sylfaenol o'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith. Ar 19 Chwefror, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar baratoadau Cymru ar gyfer Brexit heb gytundeb. Caiff hyn ei ddilyn gan ragor o waith maes archwilio yn ystod gweddill 2019. [6]

[6] http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/paratoadau-yng-nghymru-ar-gyfer-brexit-heb-gytundeb

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **23 Ebrill 2019 / 14 Mai 2019** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2018/19 – Adroddiad y Cadeirydd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**01248 752601**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur yr Adroddiad a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adrodd i'r rhai hynny 'sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (y Cyngor Sir) asesiad o'i berfformiad ar ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn arddangos sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod 2018/19.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2018/19 cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ar 14 Mai 2019.

## 3. Gwybodaeth Gefndirol

3.1. Mae Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n un o bwyllgorau statudol y Cyngor. Mae'n elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor sy'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn.

3.2. Mae'r Pwyllgor yn darparu sicrwydd annibynnol i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â digonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol, ac uniondeb y drefn adrodd ariannol. Drwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

## 4. Llywodraethu

4.1. Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, yn cynnwys y datganiad llywodraeth blynyddol, yn rhoi gwir adlewyrchiad o'r amgylchedd risg ac unrhyw weithredoedd sydd eu hangen er mwyn ei wella ac arddangos sut mae llywodraethiant yn cefnogi cyflawniad o amcanion yr awdurdod.

4.2. Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon 2017/18 drafft cyn eu hadolygu gan Archwilwyr Allanol yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2018. Yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018 cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18 a chyfeiriwyd y ddogfen i sylw Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, yn unol â'r gofyn statudol.

4.3. Mae dogfennau llywodraethu eraill a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer 2017/18, a ddarparodd y Pwyllgor â sicrwydd am effeithlonrwydd trefniadau'r Cyngor o ran Llywodraethu Gwybodaeth.
- Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar Bryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban ar gyfer 2017/18, a ddarparodd y Pwyllgor a sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau angenrheidiol yn unol â'i Bolisi Pryderon a Chwynion a'i Bolisi / Arweiniad Chwythu'r Chwiban.
- Adroddiad mewn perthynas â Derbyn Polisïau, a oedd yn nodi'r data o ran cydymffurfiaeth am y flwyddyn gyntaf ers gweithrediad y Porth Polisi, a oedd yn darparu'r Pwyllgor â sicrwydd bod aelodau unigol o staff yn darllen, yn deall ac yn derbyn yn ffurfiol y polisïau Llywodraethu Gwybodaeth allweddol;
- Yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2017/18, a ddarparodd y Pwyllgor a sicrwydd fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar gyfer materion iechyd a diogelwch.

## 5. Rheoli Risg

5.1. Mewn perthynas â rheoli risg, swyddogaethau allweddol pwyllgor archwilio yw ystyried effeithlonrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod a'r amgylchedd rheoli, adolygu proffil risg y sefydliad a chael sicrwydd bod rheolwyr yn cymryd y camau priodol ar faterion yn ymwneud â risg, yn cynnwys partneriaethau a chydweithrediadau â sefydliadau eraill.

5.2. Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor â chyfrifoldeb i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth mewnol a llywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd yn nodi'r angen iddo fodloni'r gofynion hyn.

5.3. Cymerodd y Pwyllgor sicrwydd gan yswirwyr y Cyngor, Zurich Municipal (ZM), a gynhaliodd Wiriad Iechyd Rheoli Risg yn ystod mis Tachwedd 2018 gan ddod i'r casgliad fod rheoli risg ar lefel 'Reoledig' (lefel 3) yn y Cyngor, o fewn y pum lefel o aeddfedrwydd yn y Model Perfformiad a ddefnyddiwyd. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi datblygu Cynllun Gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r arsylwadau a'r argymhellion a godwyd gan ZM.

5.4. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi datblygiad y fframwaith Rheoli Risg o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac ystyriwyd risgiau corfforaethol y Cyngor ar 19 Medi 2018 a 12 Chwefror 2019.

## 6. Cyfrifon Ariannol

6.1. Mewn perthynas â chyfrifon ariannol, swyddogaeth graidd y Pwyllgor yw i adolygu'r cyfrifon ariannol, barn yr archwilydd allanol a'r adroddiadau i aelodau a monitro gweithredoedd rheolwyr mewn ymateb i'r materion a godwyd gan archwilwyr allanol.

6.2. Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer eu harchwilio ar gyfer 2017/18 yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2018.

6.3. Ar 19 Medi 2018, adroddodd y Prif Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru fod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu rhoi barn diamod ar y datganiadau ariannol yn unol â'r amserlen statudol, yn amodol ar gwblhau'r gwaith sy'n weddill yn foddhaol ac ar dderbyn Llythyr Sylwadau'r Cyngor.

6.4. O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Cyngor Llawn y dylid derbyn Datganiad Cyfrifon 2017/18.

## 7. Rheoli Trysorlys

7.1. Mae'r pwyllgor archwilio hefyd yn cefnogi'r Cyngor drwy ymgymryd â rôl ehangach oherwydd mae'n adolygu ac yn monitro trefniadau rheoli trysorlys yn unol â Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Chanllawiau Traws-Sector (CIPFA, 2017).

7.2. Yn unol â'i gylch gorchwyl a Chod Ymarfer a Chylch Gorchwyl CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2011), ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2017/18. Cyflwynodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yr adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried a'i graffu'n unol â'r rheoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2017/18 ar 24 Gorffennaf 2018.

7.3. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad canol blwyddyn ar Reoli Trysorlys yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2018 er mwyn monitro datblygiadau a thueddiadau.

7.4. Bu'r Pwyllgor yn craffu Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20 ar 12 Chwefror 2019. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20 ac argymell y Datganiad i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau ychwanegol.

7.5. Fel rhan o’r broses o graffu ar yr adroddiadau uchod, adolygodd y Pwyllgor lefel y risg y mae’r Cyngor yn agored iddi a’i allu i reoli risg mewn perthynas â’i weithgareddau Rheoli Trysorlys.

## 8. Archwilio Mewnol

8.1. Mewn perthynas â swyddogaethau archwilio mewnol yr Awdurdod, swyddogaeth graidd y Pwyllgor yw goruchwylio ei annibyniaeth, ei wrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb, cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo defnydd effeithiol o archwilio mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

8.2. Mae ganddo hefyd rôl i gefnogi perthnasau effeithiol rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol, asiantaethau archwilio a chyrff perthnasol eraill a mynd ati’n weithredol i hyrwyddo gwerth y broses archwilio.

8.3. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2016/17 gan y cyn Bennaeth Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2018. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn barn archwilio gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithlonrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli’r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

8.4. Cymeradwyodd y Pwyllgor fân newidiadau i’r Siartr Archwilio mewnol yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018.

8.5. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio Mewnol a’r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2019.

8.6. Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar ganlyniadau pob aseiniad archwilio i bob un o gyfarfodydd arferol y Pwyllgor fel rhan o'r adroddiad diweddaru ar archwilio mewnol. Roedd yr Adroddiadau hefyd yn cynnwys manylion am gynnydd gwasanaethau wrth weithredu gweithredoedd rheolwyr er mwyn mynd i’r afael â ‘Materion/Risiau’ a godwyd gan Archwilio mewnol a bob chwe mis derbyniodd y Pwyllgor adroddiad manwl at yr holl ‘Faterion/Risgiau’ ‘Coch’ ac ‘Ambr’ a godwyd gan Archwilio Mewnol ac oedd yn parhau i fod angen sylw.

## 9. Archwilio Allanol

9.1. Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw ystyried adroddiadau ac argymhellion archwilio mewnol ac asiantaethau archwilio a’u goblygiadau o ran llywodraethiant, rheoli risg neu reolaeth.

9.2. Archwiliwr Cyffredinol Cymru yw archwiliwr allanol statudol y Cyngor. Mae rôl yr Archwiliwr Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae’r Cyngor yn rheoli a gwario arian cyhoeddus, yn cynnwys sut mae’n cyflawni gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a pha mor dda mae’r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella.

9.3. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn ymgymryd â’r Gwaith Perfformiad. Adroddodd yr Arweinydd Perfformiad Archwilio, yn y cyfarfod ar 24 Ebrill 2018, ar y gwaith a wnaed mewn perthynas ag Adroddiad Gwella Blynyddol

2017/18, yn cynnwys crynodeb o adroddiadau lleol, cynnydd a chyhoeddiadau a gynlluniwyd a gwaith presennol Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith cenedlaethol ynghyd â gwaith penodol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

9.4. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyfarfod 19 Medi 2018 fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2018/19 mewn perthynas â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Cadarnhaodd hefyd nad oedd Estyn nac Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cynnal unrhyw adolygiadau yn y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddiad.

9.5. Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiadau archwilio allanol ar y Parodrwydd am Wylfa Newydd a'r effaith ar gapasiti corfforaethol i'r cyfarfod ar 27 Mehefin 2018 ac adroddiad ar 'Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth – Safon Ansawdd Tai Cymru' i gyfarfod 19 Medi 2018. Adroddodd hefyd i gyfarfod 14 Rhagfyr 2018 ar ganlyniad yr adolygiad o drefniadau craffu'r Cyngor – 'Trosolwg o Sgriwtini – Pa mor Addas i'r Dyfodol?'

9.6. Mae Deloitte, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn ymgymryd â gwaith archwilio ariannol. Yn y cyfarfod ar 19 Medi 2018 adroddodd ar ei fwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2017/18.

9.7. Cyflwynwyd y Llythyr Archwilio Allanol Blynyddol ar gyfer 2017/18, ynghyd â'r rhybudd o ardystiad o gwblhau'r archwiliad o gyfrifon 2017/18 i gyfarfod 12 Chwefror 2019 er gwybodaeth.

9.8. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn ac ystyried adroddiadau diweddaru rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Deloitte. Mae hon yn agwedd bwysig ar fusnes y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr holl adroddiadau allanol, un ai yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu neu un o'r Pwyllgorau Sgriwtini, a bod yn y camau priodol yn cael eu cymryd.

## 10. Gwrthsefyll Twyll a Llygredd

10.1. Ym mis Rhagfyr 2018, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddau adroddiad i'r Pwyllgor yn ymwneud â thwyll; darparodd y cyntaf sicrwydd fod y Cyngor wedi lleihau i'r eithaf ar ba mor agored ydyw i dwyll o ran teithio am bris rhatach a chafwyd manylion yn yr ail adroddiad am yr ymarfer Menter Twyll Cenedlaethol a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Swyddfa'r Cabinet. Roedd yn cynnwys manylion am y gwaith y byddai Archwilio Mewnol yn ei wneud er mwyn dodo o hyd i hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus.

## 11. Amlder Cyfarfodydd

11.1. Er mwyn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol fe ddylai'r Pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd – o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a chael polisi clir ar yr eitemau hynny y bydd yn eu hystyried yn breifat a'r rhai y bydd yn eu hystyried yn gyhoeddus.

11.2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol ar 6

achlysur. Ceir gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2017/18 yn Atodiad A.

11.3. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn ei alluogi i gyfarfod yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol a'r Pennaeth Archwilio a Risg os oes angen er nad oedd angen am hynny yn ystod 2018/19.

## 12. Strwythur ac Aelodaeth

12.1. Mae'r Pwyllgor yn annibynnol ar swyddogaethau'r pwyllgor gwaith a sgriwtini ac yn cynnwys aelod annibynnol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae ganddo hawliau mynediad clir i bwyllgorau/swyddogaethau eraill ac mae'n uniongyrchol atebol i'r Cyngor.

12.2. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth o aelodau'r Cyngor, gyda chydbwysedd gwleidyddol, a hyd at ddau Aelod Lleyg wedi eu cyfethol a'u penodi gan y Pwyllgor. Dechreuodd y ddau Aelod Lleyg cyfetholedig ym mis Mehefin 2017. Mae Aelodaeth yn wrthrychol, yn annibynnol, yn wybodus a chanddo gymysgedd o arbenigedd.

12.3. Mae Aelodau yn gefnogol o egwyddorion llywodraethu da a'u gweithrediad ymarferol er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol. Mae gan Aelodau agweddau diduedd ac yn trin archwilwyr, y pwyllgor gwaith a rheolwyr yn deg ac mae ganddynt y gallu i herio'r pwyllgor gwaith a'r uwch reolwyr yn ôl yr angen.

12.4. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Mai 2018, etholwyd y Cynghorydd Peter S Rogers yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Robert Llewelyn Jones yn Is-Gadeirydd.

12.5. Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio a Risg hefyd yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor. Mae'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, a'r archwilydd allanol a benodwyd, hefyd yn mynychu'n rheolaidd. Mae'r Swyddogion hyn yn gallu cael mynediad i'r Pwyllgor, neu'r Cadeirydd, yn ôl yr angen.

## 13. Cylch Gorchwyl

13.1. Mae arfer dda yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau priodoldeb. Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei cylch gorchwyl ddiwethaf ym mis Chwefror 2015 a rhoddwyd cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill a'r Cyngor Sir ym Mai 2015.

13.2. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r dasg o adolygu ei gylch gorchwyl tan ar ôl cyhoeddi y canllawiau newydd CIPFA.

13.3. Ym mis Mai 2018, fe adolygodd CIPFA ei ganllawiau yn llwyr a'u diweddaru er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau proffesiynol sydd wedi effeithio ar y sector cyhoeddus gan gynnwys cyflwyniad y Fframwaith Darparu Llywodraethiant Da Mewn Llywodraeth Leol (CIPFA/Solace 2016). Mae'r canllawiau diwygiedig yn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth mewnol ac archwilio.

13.4. Fe wnaeth CIPFA hefyd ddiweddaru rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag atal twyll er mwyn adlewyrchu'r Cod Ymarfer ar reoli'r Risg o Dwyll a Llygredigaeth.

13.5. Yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018, fe gadarnhaodd y Pwyllgor ei Gylch Gorchwyl diwygiedig, ac fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith ei gadarnhau ar 29 Hydref 2018 a'r Cyngor Sir ei fabwysiadu ar 11 Rhagfyr 2018.

## 14. Effeithiolrwydd

14.1. Mae'r Pwyllgor wedi gweithio yn unol â'i gylch gorchwyl, sy'n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ran monitro rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol yn y Cyngor.

14.2. Bydd y Pwyllgor yn cynnal hunan-asesiad manwl yn erbyn Canllawiau Ymarferol newydd CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2018) yn ystod 2019/20.

14.3. Mae gweithredoedd a godwyd gan y Pwyllgor a'u datrysiadau wedi'u nodi yn Atodiad B.

14.4. Gweler Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2018/19 yn Atodiad C. Gallai hyn newid yn dilyn hunan-asesiad y Pwyllgor o effeithlonrwydd yn ystod 2019/20.

## 15. Sylwadau'r Cadeirydd

15.1. Hoffai'r Cadeirydd fynegi ei ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb a'u cyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

15.2. Hoffai'r Cadeirydd hefyd fynegi ei ddiolch i'r gweithwyr hynny o fewn y Cyngor sydd wedi mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd ac, yn benodol, mae hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i staff y Gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol am eu cymorth parod.

15.3. Mae'r Cadeirydd yn manteisio ar y cyfle hwn i atgoffa'r Cyngor o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor, sydd hyd yn oed yn fwy perthnasol yn y sefyllfa economaidd bresennol o ran sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg mewn modd effeithiol a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

**15.4.** Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda staff y Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yng ngweithrediadau'r Cyngor yn 2019/20.

**CYNGHORYDD PETER S ROGERS**
**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**
**23 EBRILL 2019**

# Atodiad A – Amlder Cyfarfodydd a Phresenoldeb

| Aelodau | Cyfarfodydd | | | | | | Nifer y Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 24/04/18 | 27/06/18 | 24/07/18 | 19/09/18 | 04/12/18 | 12/02/19 | |
| Cyng Peter S Rogers (Cadeirydd) | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| Cyng Robert Ll. Jones (Is-gadeirydd) | Ymddiheuriadau | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | Presennol | Presennol | **4 / 6** |
| Cyng John Griffith (cyn ddeilydd portffolio Cyllid) | Ymddiheuriadau (Deilydd Portffolio) | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| Cyng Richard Griffiths | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | Presennol | **2 / 6** |
| Cyng Gwilym O. Jones | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | **5 / 6** |
| Cyng Dylan Rees | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **6 / 6** |
| Cyng Alun Roberts | Presennol | Ymddiheuriadau | | Presennol | Presennol | Presennol | **4 / 6** |
| Cyng Margaret M. Roberts | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | **5 / 6** |
| Cyng Robin Williams (deilydd portffolio Cyllid presennol) | Presennol | Ymddiheuriadau (Deilydd Portffolio) | Presennol (Deilydd Portffolio) | Presennol (Deilydd Portffolio) | Ymddiheuriadau (Deilydd Portffolio) | Ymddiheuriadau (Deilydd Portffolio) | **3 / 6** |
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **6 / 6** |
| Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| **Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor[1]** | **8** | **8** | **5** | **8** | **8** | **9** | |

[1] Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd y Pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a dau aelod lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ond mae angen i'r deilydd Portffolio Cyllid, cyn belled â bo hynny'n bosibl, fynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor.

## Atodiad B – Cynnydd mewn perthynas â'r Camau Gweithredu a godwyd gan y Pwyllgor yn 2018/19

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27/06/18 | 3 | Datganiad Cyfrifon 2017/18 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18 | Darparu'r Pwyllgor â gwybodaeth ar sut mae ffigyrau alldro'r Gyllideb ym mharagraff 3.4.1 o'r adroddiad naratif yn cael eu cysoni i'r datganiadau ariannol. | Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo | Ar unwaith | Rhoes y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo y wybodaeth i'r Aelod Lleyg yn dilyn y cyfarfod. | |
| 19/09/18 | 5 | Adroddiad Blynyddol: | Cymeradwyo'r prif negeseuon o'r Tabl gwersi a Ddysgwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad, sef -<br><br>Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn atgoffa'r holl Benaethiaid Gwasanaeth bod yn rhaid dilyn y Siartr Gofal Cwsmer bob amser wrth ddelio â'r cyhoedd ac i sicrhau hyfforddiant rheolaidd a hyfforddiant gloywi yn ôl yr angen. | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor_ / Swyddog Monitro | Ar unwaith | Cwblhawyd. | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | O hyn allan, bod system gorfforaethol newydd i gael ei gweithredu lle bydd angen i wasanaethau gwblhau log gwersi a ddysgwyd ffurfiol ar ddiwedd proses gwynion ar gyfer unrhyw gwynion sy'n cael eu derbyn neu'n cael eu derbyn yn rhannol. | | | | |
| 19/09/18 | 10 | Archwilio Allanol: Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth – Safon Ansawdd Tai Cymru – CSYM | Y Gwasanaeth Tai i gynnal adolygiad ôl-weithredol o ddiddymiad y gwasanaeth warden yn ei gynlluniau tai gwarchod. | Pennaeth Gwasanaethau Tai | Heb ei nodi | Disgwyl am ddiweddariad | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 04/12/18 | 4 | Diweddariad ar Gynnydd Archwilio mewnol | Pennaeth Archwilio a Risg i ddarparu'r Pwyllgor â'r canlynol –<br>• Data ar ddefnydd yn y gorffennol ac ar hyn o bryd o ran teithio am bris rhatach<br>• Data meincnodi mewn perthynas â chasglu incwm am brydau ysgol | Pennaeth Archwilio a Risg | Pwyllgor Nesaf | Cwblhawyd. Darparodd y Pennaeth Archwilio a Risg y wybodaeth i gyfarfod Chwefror 2019 y Pwyllgor. | |
| 04/12/18 | 8 | Blaen Raglen Waith | Penderfynwyd nodi a derbyn y Blaen Raglen waith yn amodol ar gynnwys y Llythyr Archwilio am 2017/18 fel eitem ar gyfer cyfarfod Chwefror 2019 o'r Pwyllgor. | Pennaeth Archwilio a Risg i ddiweddaru'r Flaen Raglen Waith yn ôl yr angen. | Ar unwaith | Cwblhawyd | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12/02/19 | 2 | Rheoli dyledion ysgolion. | Pennaeth Archwilio a Risg i holi Cynghorau yng Nghymru lle mae lefel y dyledion prydau ysgol yn isel a pha arferion sydd ganddynt yn eu lle er mwyn rheoli dyledion prydau ysgol. | Pennaeth Archwilio a Risg | Ar unwaith | Gwybodaeth wedi’i chael gan Gyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac wedi’i rhannu â’r Gwasanaeth Dysgu. | |
| 12/02/19 | 3 | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2017/18 | Gofynnwyd i’r Swyddog Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gadarnhau’r canlynol –<br><br>Os oes unrhyw reswm penodol am y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol ac a yw’r cynnydd yn adlewyrchu tueddiad cynyddol.<br><br>Y gwahaniaeth rhwng dau gategori o “Drais Corfforol gan Unigolyn” yn y Tabl mathau o ddigwyddiadau ar dudalen 6 yr adroddiad. | Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Ar unwaith | Mae’r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn adrodd yn ôl i gyfarfod Ebrill 2019 o’r Pwyllgor. | |

# Atodiad C – Blaen Raglen Waith 2019/20

| Dyddiad | Cyfrifon | Archwilio Mewnol | Archwilio Allanol | Rheoli Trysorlys | Rheoli Risg | Llywodraethu | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2019** | | Adroddiad Diweddaru<br><br>Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19 | Cynllun Blynyddol 2019<br><br>Adroddiad Cynnydd | | | | Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor – Adroddiad y Cadeirydd |
| **Gorff 2019** | Datganiad Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2018/19 | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2018/19 | Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2018/19 | |
| **Medi 2019** | Argymell ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor, y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Adroddiad Diweddaru<br><br>'Materion/Risgiau' Archwilio Mewnol sy'n weddill<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio mewnol | Adroddiad ar Gyfrifon i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb am Lywodraethiant (ISA 260) | | Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol | Cynnydd a wnaed o ran Adroddiadau Rheoleiddio Allanol<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol 2018/19 | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |

| Dyddiad | Cyfrifon | Archwilio Mewnol | Archwilio Allanol | Rheoli Trysorlys | Rheoli Risg | Llywodraethu | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Adroddiad Craffu Diogelwch TGCh blynyddol 2018/19 | |
| **Rhagfyr 2019** | | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Craffu ar Adroddiad Canol Blwyddyn Gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn 2019/20 | | | Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a Llygredd<br><br>Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio |
| **Chwefror 2020** | | Strategaeth Archwilio Mewnol 2020/21 ar gyfer ei gymeradwyo<br><br>Adroddiad diweddaru ar<br><br>‘Faterion/Risgiau’ Archwilio mewnol sy’n weddill. | Adroddiad Cynnydd | Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 yn cynnwys Dangosyddion Darbodus | Cofrestr Risg Gorfforaethol | Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 23 Ebrill 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018-19 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Adroddiad Blynyddol Archwili Mewnol. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PIAS) mae'n ofynnol i'r 'prif swyddog archwilio' gyflwyno barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu. Yn ogystal, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn nodi fod rhaid iddo ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol. Mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2018-19 i'r Pwyllgor, sy'n rhoi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, trefniadau rheoli risg a rheoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, fydd yn sail i ddatganiad llywodraethu blynyddol y Cyngor.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r 'farn' gyffredinol.



# ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2018-19


## Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611


CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# TABL CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
BARN ARCHWILIO MEWNOL 2
Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2018/19 2
SAIL FY MARN 3
Sgôp 3
Amgylchedd a Chysylltiadau 3
Sicrwydd 4
Materion/Risgiau sy'n parhau 4
MATERION SY'N BERTHNASOL WRTH BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 5
EIN PERFFORMIAD 6
Ychwanegu Gwerth 6
Mesurau Perfformiad 6
Meincnodi 7
HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD 8
CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS 9
HERIAU WRTH SYMUD YMLAEN 10
Atodiad A: Crynodeb o Waith Archwilio Mewnol 11
Atodiad B: Diffiniad o Raddau Sicrwydd 2018-19 15
Atodiad C: Mesurau Perfformiad - cymharu a'r targed a'u meincnodi yn erbyn Grwp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG) 16

# CYFLWYNIAD

**Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n rhaid i'r 'prif swyddog archwilio', sef y Pennaeth Archwilio a Risg yn achos y Cyngor, gyflwyno barn archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei defnyddio fel sail i'w Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol[1].**

Mae'n rhaid i'r farn flynyddol gynnwys:

- Barn ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad
- Datgelu unrhyw amodau ar y farn honno, ynghyd â'r rheswm dros yr amod
- Cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio y seiliwyd y farn arno, yn cynnwys dibyniaeth a roddir ar gyrff sicrwydd eraill
- Tynnu sylw at unrhyw faterion y mae'r prif swyddog archwilio'n barnu eu bod yn arbennig o berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Crynhoi perfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad
- Rhoi sylwadau ar gydymffurfiaeth â'r PSIAS a rhannu canlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd Archwilio Mewnol.

[1] O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n rhaid adrodd ar adolygiad o drefniadau llywodraethu yn fewnol, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn achos y Cyngor, ac yn allanol yn y cyfrifon a gyhoeddir. Adolygiad blynyddol o systemau rheoli mewnol yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) ac mae'n casglu sicrwydd o wahanol ffynonellau er mwyn ei gefnogi. Mae Archwilio Mewnol yn gyfrannwr allweddol ac mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu er mwyn cefnogi'r DLIB.

# BARN ARCHWILIO MEWNOL

## Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2018/19

*Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol.*

*Er nad ydw i'n ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella mesurau rheoli mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, ac mae'r rhain yn cael eu monitro.*

*Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.*

# SAIL FY MARN

## Sgôp

**Rydw i wedi ffurfio fy marn drwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau yr ydym wedi ymgymryd â nhw yn ystod y flwyddyn** (cyfeirir atynt yn Atodiad A). Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r Cyngor, ond mae'n deillio'n sylweddol o bennu cynllun gwaith sy'n seiliedig-ar-risg y cytunwyd arno gyda rheolwyr ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a dylai gynnig lefel rhesymol o sicrwydd, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid isod.

Dim ond y materion hynny a ddaeth i'n sylw wrth i ni ymgymryd â'n gwaith a'n gweithgareddau o fewn y Cyngor a godir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellir eu gwneud. Ni ddylid ystyried bod yr adroddiad hwn, nac ein gwaith, yn cymryd lle cyfrifoldebau rheolwyr i weithredu arferion rheoli mewnol cadarn. Pwysleisiwn mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau bod system rheoli mewnol gadarn mewn lle ac ni ddylid dibynnu ar ein gwaith i adnabod yr holl gryfderau a gwendidau allai fodoli.

## Amgylchedd a Chysylltiadau

**Yn ystod 2018-19, roedd uwch reolwyr y Cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion a godwyd gennym.** Mae gennym berthynas dda â rheolwyr; maent yn fodlon rhannu'n agored meysydd allai fod, yn eu tyb, yn broblemus ac maent yn fodlon derbyn canlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau. Yn ogystal, cawsom ein comisiynu i wneud gwaith ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ar gais rheolwyr, sydd yn dangos yn glir fod rheolwyr yn fodlon gweithio gydag Archwilio Mewnol i sefydlu amgylcheddau risg a rheoli da.

## Sicrwydd

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd sicrwydd 'Cyfyngedig' i bedwar archwiliad, gyda'r gweddill yn derbyn graddau Sicrwydd 'Sylweddol' (3) neu 'Rhesymol' (14).

- Taliadau Uniongyrchol
- Trefniadau Casglu Incwm mewn Ysgolion
- Adolygiad Dilyn-i-fyny Mân Ddyledwyr
- Adolygiad Dilyn-i-fyny Rheolaethau System – Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau

Cynhelir adolygiadau dilyn-i-fyny i fonitro gweithrediad y risgiau a godwyd yn yr archwiliadau hyn. Ni roddwyd graddau sicrwydd 'Lleiaf' i unrhyw archwiliad. Mae diffiniad o'r graddau sicrwydd i'w weld yn Atodiad B. Mae'r graddau hyn wedi eu diwygio ar gyfer 2019-20; mae'r diffiniadau newydd yn adlewyrchu'n well y farn y daeth archwilwyr iddi ar ddiwedd pob archwiliad.

## Materion/Risgiau sy'n parhau

**Lle'r ydym wedi nodi Materion/Risgiau, mae rheolwyr wedi derbyn pob un ohonynt.**

**Mae'r Rheolwyr wedi gweithredu'r holl Faterion/Risgiau 'Coch' oedd yn weddill, sy'n cadarnhau bod y rheolwyr yn ymatebol i'n gwaith.**

**Ni chodwyd unrhyw Faterion/Risgiau 'Coch' yn ystod y flwyddyn.**

# MATERION SY'N BERTHNASOL WRTH BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Nid oes unrhyw faterion sydd o risg neu effaith sylweddol iawn sy'n haeddu cael eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

# EIN PERFFORMIAD

## Ychwanegu Gwerth

**Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi ymdrechu i ychwanegu gwerth ble bynnag bo hynny'n bosib, h.y. mynd tu hwnt i'r safon ddisgwyliedig a darparu mwy heb ychwanegu na lleihau costau.**

Rydym wedi:

- rhannu ymarfer a rhaglenni gwaith gyda thimau archwilio mewnol eraill yn y sector cyhoeddus
- rhannu meysydd lle mae risgiau'n datblygu
- gweithio gyda phartneriaid i ystyried darpariaeth sicrwydd ar y cyd
- trefnu cyrsiau hyfforddi o werth uchel am gost isel ar gyfer yr holl archwilwyr sector cyhoeddus ar draws rhanbarth Gogledd a Chanolbarth Cymru.

## Mesurau Perfformiad

**Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwelliant yn ei lle er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ein gwasanaeth archwilio mewnol.** Cytunwyd ar nifer o dargedau perfformiad gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y Strategaeth ar gyfer 2018-19, a gellir eu gweld yn Atodiad C.

**Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn ein targedau, gyda pedwar allan o saith dangosydd yn cyrraedd eu targed neu'n well na'u targed.** Nid ydym wedi perfformio cystal o ran y ganran o'r risgiau ambr sy'n weddill a gafodd eu hadolygu, a'n cynhyrchiant. Y rheswm pennaf am hyn oedd absenoldeb tymor hir aelod o staff yn ystod 2018-19 a bod dwy swydd wag heb eu llenwi yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.

**Mae ein Strategaeth ar gyfer 2019-20 yn fwy realistig a chyraeddadwy**, er bod pwysau ar adnoddau yn parhau oherwydd absenoldeb (trafodir hyn ymhellach yn Heriau wrth Symud Ymlaen isod).

## Meincnodi

Rydym wedi meincnodi ein perfformiad yn erbyn ein cyfoedion yn ogystal. Mae meincnodi yn safon y gellir mesur ansawdd yn ei erbyn. Mae'n help o ran gosod strwythur i adnabod a chyflawni arfer orau, sy'n arwain at newidiadau sydd yn eu tro'n arwain at wella gwasanaethau. O ganlyniad, rydym yn meincnodi ein perfformiad yn erbyn y 22 aelod o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru.

Ni yw'r awdurdod lleiaf o fewn y Grŵp o ran poblogaeth ac o'r herwydd ni allwn fanteisio ar yr arbedion maint sydd ar gael i rai o'r aelodau eraill.


Fodd bynnag, **mae ein perfformiad yn y chwartel uchaf o ran**:

- cwblhau archwiliadau o fewn yr amser a gynlluniwyd
- bodloni cleientiaid,
- prydlondeb cyhoeddi adroddiadau drafft,
- prydlondeb cyhoeddi adroddiadau terfynol.

# HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

Mae holl aelodau'r tîm wedi cymhwyso'n broffesiynol, gyda chymysgedd dda o gymwysterau proffesiynol. Mae'r **gwasanaeth wedi buddsoddi'n sylweddol** er mwyn sicrhau bod staff yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol ac yn ymwybodol o'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle'r oedd hynny'n ofynnol. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi cyfanswm o 114 diwrnod mewn hyfforddiant a datblygiad yn ystod 2018-19, yn cynnwys y canlynol:



# CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS

O dan y Safonau, mae’n rhaid i’r gwasanaethau archwilio mewnol dderbyn asesiad ansawdd allanol bob pum mlynedd.

**Roedd asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017, yn rhoi sicrwydd fod y gwasanaeth yn ‘Cydymffurfio’n Gyffredinol’[2] â’r Safonau, sef yr asesiad uchaf sydd ar gael i’r asesydd.**

Fe wnaeth yr asesydd allanol godi saith maes gwella i’w hystyried. Mae’r Pennaeth Archwilio a Risg wedi ymateb yn llawn i’r saith maes gwella.

[2] ‘Mae ‘Cydymffurfio’n Gyffredinol’ yn golygu bod y gwerthuswr wedi dod i’r casgliad fod strwythurau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol y gwasanaeth archwilio mewnol, yn ogystal â’r prosesau ar gyfer eu gweithredu, yn cydymffurfio â gofynion Safon neu elfen unigol y Cod Moeseg ym mhob cyswllt perthnasol. Ar gyfer yr adrannau a’r prif gategorïau, mae hynny’n golygu cydymffurfiaeth gyffredinol â rhan fwyaf o’r Safonau neu elfennau unigol y Cod Moeseg, a chydymffurfiaeth rannol o leiaf gyda’r gweddill o fewn yr adran/categori. Efallai fod cyfleoedd sylweddol i wella, ond ni ddylai’r rhain gynrychioli sefyllfaoedd lle nad yw’r gwasanaeth wedi gweithredu’r Safonau’r neu’r Cod Moeseg, heb eu cymhwyso’n effeithiol, neu heb gyflawni'r amcanion a bennwyd ganddo. Fel y nodir uchod, nid yw cydymffurfiaeth gyffredinol yn golygu cydymffurfiaeth lwyr neu berffaith, y sefyllfa ddelfrydol, ymarfer llwyddiannus, ac ati.

# HERIAU WRTH SYMUD YMLAEN

Yn 2019-20, bydd un absenoldeb tymor hir yn lleihau'r adnodd sydd ar gael i gyflawni'r gweithgarwch archwilio mewnol wrth symud ymlaen.

Fodd bynnag, hon fydd yr ail flwyddyn o weithredu'r fethodoleg archwilio newydd. Mae profiad y llynedd wedi darparu gwersi gwerthfawr i ni; bydd y tîm brwdfrydig ac ymroddedig, ynghyd â dau aelod newydd o staff, meddalwedd rheoli risg newydd a meddalwedd uwchraddedig ar gyfer tracio camau gweithredu, yn rhoi'r tîm archwilio mewnol mewn **sefyllfa dda i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gynllun** ac yn parhau i gefnogi'r Cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu.

# ATODIAD A: CRYNODEB O WAITH ARCHWILIO MEWNOL

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Ffynhonnell | Gradd Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Statws Presennol | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 31/03/19 | Gradd Sicrwydd | Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor – Targed / Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **TRWY'R GORFFORAETH** | | | | | | | |
| Corfforaethol | Diwygio Lles | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2<br>YM10 | 10 | 10 | Gwaith yn mynd Rhagddo | Gorffennaf 2019 |
| Corfforaethol | Diogelu Corfforaethol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D2[3]<br>YM11 | 7 | 7 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |
| Corfforaethol | CONTEST (Gwrth-Derfysgaeth ac Atal Radicaleiddio) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | E1<br>YM27 | 10 | 8 | Gwaith yn mynd Rhagddo | Gorffennaf 2019 |
| Corfforaethol | Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D1<br>YM34 | 15 | 10 | Gwaith yn mynd Rhagddo | Gorffennaf 2019 |
| Corfforaethol | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2<br>YM31 | 8 | 8 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |
| Corfforaethol | Caffael Corfforaethol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D2 - YM20<br>D2 - YM22 | 18 | 18 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |
| Corfforaethol | Rheolaeth Risg | Gweithredwyd proses newydd ym mis Hydref 2017. Rhoddwyd y feddalwedd 4Risk newydd ar waith ym mis Medi 2018. | amh. | amh. | amh. | **Lefel 3<br>'Yn cael ei reoli'[4]** | **Chwefror 2019** |

[3] Risg Gweddilliol wedi'i ostwng o C1 (Coch) i D2 (Ambr)
[4] Casgliad Gwiriad Iechyd annibynnol, a wnaed gan Zurich Municipal yn seiliedig ar eu model aeddfedrwydd, sy'n ymgorffori pum lefel o aeddfedrwydd

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Ffynhonnell | Gradd Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Statws Presennol | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 31/03/19 | Gradd Sicrwydd | Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor – Targed / Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADNODDAU** | | | | | | | |
| Adnoddau | Incwm – Adolygiad dilyn-i-fyny Mân Ddyledwyr | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwiliad allanol | amh. | 18 | 18 | **Sicrwydd Cyfyngedig** | **Rhagfyr 2018** |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | |
| TGCh | Archwiliad TG – Seiber-ddiogelwch | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 YM28 | 20 | 20 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Chwefror 2019** |
| AD | Recriwtio a Chadw | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM5 | 15 | 15 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Ebrill 2019** |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamddenol – Llywodraethiant a Rheolaeth | Cais gan y Pennaeth Gwasanaeth newidiadau strwythurol mawr. Dygwyd ymlaen o 2017/18 | amh. | 15 | 24 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Ebrill 2019** |
| **GWASANAETHAU PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO** | | | | | | | |
| Priffyrdd | Trefniadau Monitro Contract Priffyrdd | Cais gan y Pennaeth Gwasanaeth | amh. | 10 | 10 | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| **TAI** | | | | | | | |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM29 | 10 | 14 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Ebrill 2019** |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | | | | |
| Oedolion | Mesurau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM25 | 9 | 9 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Gorffennaf 2018** |
| Oedolion | Taliadau Uniongyrchol | Cais gan y Pennaeth Gwasanaeth (dygwyd ymlaen o 2017/18) | amh. | 20 | 20 | **Sicrwydd Cyfyngedig** | **~~Medi 2018~~ Ebrill 2019** |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Ffynhonnell | Gradd Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Statws Presennol | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 31/03/19 | Gradd Sicrwydd | Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor – Targed / Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DYSGU** | | | | | | | |
| Dysgu | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – Ei weithredu mewn Ysgolion | Cofrestr Risg Gorfforaethol. Bydd yn destun Gwiriad Iechyd annibynnol gan ein hyswirwyr. | C2 YM38 | 0 | 9 | Gwaith yn mynd Rhagddo | **~~Ebrill 2019~~ Gorffennaf 2019** |
| Dysgu | Adolygiadau Thematig Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm mewn Ysgolion | Cais gan y Pennaeth Gwasanaeth | amh. | 20 | 20 | **Sicrwydd Cyfyngedig** | **~~Medi 2018~~ Rhagfyr 2018** |
| **ARDYSTIO GRANTIAU** | | | | | | | |
| | Grant Rhentu Doeth Cymru | Gofyniad grant | amh. | 10 | 10 | **Sicrwydd Sylweddol** | **Gorffennaf 2018** |
| | Grant Gwisg Ysgol | | | | | **Sicrwydd Rhesymol** | **Medi 2018** |
| | Grant Gwella Addysg | | | | | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| | Grant Datblygu Disgyblion | | | | | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| | **CYFANSWM DYDDIAU ARCHWILIO** | | | **225** | **230** | | |
| **DYDDIAD Y GELLIR CODI TÂL AMDANYNT, HEB EU RHAGLENNU (CYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Gwaith Dilyn-i-fyny | Mae angen dilyn i fyny ar nifer o adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig, yn cynnwys adrodd a gweinyddu 4Action | | 70 | 75 | | |
| | Menter Twyll Genedlaethol | | | 10 | 13 | | |
| | Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, ymholiadau a chyfeiriadau | | | 50 | 46 | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Ffynhonnell | Gradd Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Statws Presennol | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 31/03/19 | Gradd Sicrwydd | Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor – Targed / Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cau Gwaith y Flwyddyn Flaenorol | | | 19 | 19 | | |
| | Ymgynghoriaeth Gorfforaethol | | | 65 | 74 | | |
| | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, gan gynnwys hyfforddiant i aelodau | | | 40 | 33 | | |
| | Adolygiad Rheolwyr | | | 25 | 23 | | |
| | **CYFANSWM** | | | **279** | **283** | | |
| **DYDDIAU NA ELLIR CODI TÂL AMDANYNT (ANGHYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Risg ac Yswiriant | | | 20 | 19 | | |
| | Gweinyddiaeth Gyffredinol | | | 40 | 40 | | |
| | Datblygiad ac Adolygiad Personol, Cyfarfodydd Un i Un a Tîm | | | 20 | 11 | | |
| | Rheolwyr, gan gynnwys ymgysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi'r cynllun archwilio | | | 39 | 39 | | |
| | Gwyliau, gan gynnwys gwyliau blynyddol, statudol, arbennig a salwch | | | 362 | 360 | | |
| | Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer staff, gan gynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg | | | 111 | 114 | | |
| | **CYFANSWM** | | | **592** | **583** | | |
| | **CYFANSWM GOFYNIAD ADNODDAU** | | | **1096** | **1096** | | |

# ATODIAD B: DIFFINIAD O RADDAU SICRWYDD 2018-19[5]

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad | Ymyrraeth Rheolwyr |
|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Dim gwallau sylweddol o bwys wedi eu canfod.** | Nid oes angen i reolwyr gymryd unrhyw gamau neu mae angen camau lefel isel yn unig.<br><br>Canfyddiadau y mae modd i reolwyr llinell roi sylw yn hawdd iddynt. |
| Sicrwydd Rhesymol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Rhywfaint o anghysondeb ac mae cyfleoedd yn dal i fodoli i liniaru yn erbyn risgiau pellach.** | Mae angen i'r Rheolwyr weithredu ar lefel gymedrol i isel.<br><br>Mae modd rhoi sylw i'r canfyddiadau ar lefel gwasanaeth. |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae bylchau yn y broses sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw amcanion yn cael eu bodloni, neu cânt eu bodloni heb sicrhau gwerth am arian.** | Mae angen i'r Rheolwyr weithredu ar lefel uchel i gymedrol.<br><br>Bydd angen i'r penaethiaid gwasanaeth ddatrys y canfyddiadau ac efallai y bydd angen rhoi gwybod i'r UDA. |
| Sicrwydd Lleiaf | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Ystyrir bod y rheolaethau allweddol yn annigonol ac mae o leiaf un mecanwaith rheoli hanfodol ar goll. Hefyd, mae angen gwella cydymffurfiaeth â rheolaethau presennol, a daethpwyd o hyd i wallau a phethau sydd heb eu gwneud.** | Mae angen i'r Rheolwyr weithredu ar lefel uchel mewn nifer o feysydd.<br><br>Gwendidau mewn rheolaeth y mae angen i'r UDA roi sylw brys iddynt gydag ymyrraeth o bosib gan y Pwyllgor Gwaith. |

[5] Mae'r diffiniadau hyn wedi'u diwygio ar gyfer 2019-20

# ATODIAD C: MESURAU PERFFORMIAD – CYMHARU A'R TARGED A'U MEINCNODI YN ERBYN GRWP PRIF ARCHWILWYR CYMRU (WCAG)

| MESUR PERFFORMIAD | CYMEDR WCAG 2017/18 | TARGED 2017/18 | GWIR 2017/18 | TARGED 2018/19 | GWIR 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y Materion / Risgiau archwilio mewnol a weithredwyd o fewn yr amserlen gytunedig (blaenoriaeth Gritigol, Mawr a Chymedrol) | amh. | 90% | 91% | 90% | **89%** |
| Canran yr archwiliadau a gwblhawyd o fewn yr amser a gynlluniwyd | 73% | 80% | 86% | 90% | **92%** |
| Canran o ymatebion cleientiaid yn mynegi o leiaf 'boddhad' gyda'r aseiniadau archwilio a gynhaliwyd | 98% | 100% | 100% | 100% | **100%** |
| Canran yr amser y gellir codi amdano'n uniongyrchol yn erbyn yr holl amser ar gael (dangosydd cynhyrchiant) | 67% | 65% | 59% | 65% | **47%** |
| Cyfartaledd gwir nifer y dyddiau rhwng y cyfarfod cau a chyflwyno'r adroddiad drafft | 6 diwrnod | 6.5 diwrnod | 6.8 | 6.5 diwrnod | **3.7 diwrnod** |
| Cyfartaledd gwir nifer y dyddiau rhwng derbyn yr ymateb i'r adroddiad drafft a chyflwyno'r adroddiad terfynol | 3 diwrnod | 2 ddiwrnod | 1.6 | 2 ddiwrnod | **2.8 diwrnod** |
| Canran y risgiau corfforaethol (risgiau gweddilliol coch ac ambr) a adolygwyd gan Archwilio Mewnol | amh. | Newydd | Newydd | 80% | **58%** |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# BLAENRAGLEN WAITH

# Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**23 Ebrill 2019**



| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg |
| E-bost: | MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2019<br>Gorffennaf 2019<br>Medi 2019<br>Rhagfyr 2019<br>Chwefror 2020 | **Diweddariad Archwilio Mewnol** | Diweddariad ar y cynnydd diweddaraf gan Archwilio Mewnol o ran sut mae'n cyflwyno'r gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant. | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Mehefin 2019<br>Gorffennaf 2019<br>Medi 2019<br>Rhagfyr 2019<br>Chwefror 2020 | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Allanol** | Diweddariad ar waith Archwilio Allanol:<br>• Archwiliad ar Berfformiad<br>• Archwiliad Ariannol | Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad – Swyddfa Archwilio Cymru<br>Alan.Thomas@audit.wales<br><br>Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloittes<br>cedge@deloitte.co.uk |
| Gorffennaf 2019 | **Adroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 ynglŷn â'r Datganiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2018/19** | Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol drafft 2018/19 ac i gyfrannu at y gwerthusiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethiant y Cyngor ymhellach yn ystod 2019/20. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk<br><br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Gorffennaf 2019 | **Adroddiad Blynyddol Perfformiad Yswiriant 2018/19** | Adroddiad perfformiad blynyddol ar weithgaredd yswiriant | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2019 | **Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2018/19** | Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn ofyniad yng ngweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n ymwneud â gweithgareddau'r trysorlys am y flwyddyn 2018/19. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| Medi 2019 Chwefror 2020 | **Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sy'n Weddill** | Adroddiad manwl o'r holl faterion/risgiau archwilio mewnol sy'n weddill | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Medi 2019 Chwefror 2020 | **Cofrestr Risg Gorfforaethol** | Yn unol â'r cylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, ofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau. | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk<br><br>Rheolwr Yswiriant a Risg JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| Medi 2019 Chwefror 2020 | **Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol** | Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor. | Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|
| Medi 2019 | **Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynglŷn â'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2018/19** | Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw cymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu felly:<br>• gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2018/19, gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2018/19,<br>• derbyn adroddiad yr Archwiliwr Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260, a chymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| Medi 2019 | **Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh** | Adroddiad blynyddol y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh ynghylch diogelwch data digidol/bygythiadau i'r Cyngor o ran seiber-ddiogelwch a'r trefniadau sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny. | Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh<br>JohnThomas@ynysmon.gov.uk |
| Medi 2019 | **Adroddiad Blynyddol Iechyd a diogelwch corfforaethol 2018/19** | Adroddiad blynyddol y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd | Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol<br>StephenNicol@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|
| Medi 2019 | **Siarter Archwilio Mewnol** | Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Siartr Archwilio Mewnol, y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei gymeradwyo. Er nad oes angen ei adolygu'n llawn ac yn ffurfiol tan 2021, bydd y Siarter yn cael ei diweddaru ar gyfer newidiadau i'r dull archwilio mewnol. | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Rhagfyr 2019 | **Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** | Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu ei gylch gorchwyl o bryd i'w gilydd i weld a yw'n briodol, gan roi ystyriaeth i ganllawiau'r sector ac anghenion y Cyngor. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| Rhagfyr 2019 | **Adolygiad o'r Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risg** | Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor. | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Rhagfyr 2019 | **Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reolaeth Trysorlys ar gyfer 2019/20** | Mae gofynion Adrodd am Arferion Rheoli Trysorlys CIPFA a threfniadau gwybodaeth gan reolwyr yn argymell y dylai awdurdodau lleol, fel gofyniad sylfaenol, adrodd ar y sefyllfa canol blwyddyn o ran rheoli'r trysorlys. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa bresennol ar fuddsoddiadau a benthyca. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|
| Chwefror 2020 | **Strategaeth Archwilio Mewnol 2020/21** | Yn unol â'r safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (2017), rhaid i'r prif swyddog archwilio gyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar gyfer eu cymeradwyo | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Chwefror 2020 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 a'r Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2020/21** | Mae gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli CIPFA mewn perthynas ag Arferion Rheoli Trysorlys yn argymell y dylai awdurdodau lleol adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar eu strategaeth a chynllun rheoli, cyn cychwyn y flwyddyn.<br><br>Bydd yr adroddiad yn sôn am y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol ar gyfer 2020/21 yn unol â gofynion y Côd Darbodus. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk |